sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Diwygiedig 2018-2033
## Cynllun Datblygu Lleol

# Papur Pwnc
## Rôl a Swyddogaeth



Diweddariad Ebrill 2024

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys


1. Rhagarweiniad ..... 2
 Diben y Papur hwn ..... 2
2. Cyflwyno'r Cefndir ..... 3
 Portread Gofodol: Sir o Gyferbyniadau ..... 3
 Y CDLl mabwysiedig 2006-2021 ..... 3
3. Cyfansoddiad Poblogaeth ac Aelwydydd ..... 5
4. Opsiwn Gofodol y CDLl diwygiedig a'i Hierarchaeth Aneddiadau ..... 6
 Cefndir Opsiwn Gofodol ..... 6
 Hierarchaeth Aneddiadau – Haenau ..... 7
  Prif Ganolfannau ..... 8
  Canolfannau Gwasanaeth ..... 9
  Pentrefi Cynaliadwy ..... 10
  Pentrefi Gwledig (Dim terfynau datblygu a dim dyraniadau tai) ..... 11
 Diffinio Clystyrau ..... 12
 Clwstwr 1 - Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig ..... 14
 Clwstwr 2 - Llanelli a De Cwm Gwendraeth ..... 15
 Clwstwr 3 - Aman a Phen Uchaf Cwm Gwendraeth ..... 16
 Clwstwr 4 - Teifi ..... 16
 Clwstwr 5 - Pen Uchaf Dyffryn Tywi ..... 17
 Clwstwr 6 - Gorllewin Sir Gaerfyrddin ..... 18
5. Ystyried Strategaethau eraill ..... 20
 Polisi Cynllunio Cymru ..... 20
 Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 ..... 20
 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ..... 21
 Dinas-ranbarth Bae Abertawe ..... 21
 Trawsnewid: Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin – 2015-2030 ..... 21
 Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin ..... 22
 Y Rhaglen Moderneiddio Addysg ..... 22
 Cynllun Cyflawni Cartrefi Fforddiadwy ..... 22
 Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ..... 23
 Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ..... 23
 Asesiad o'r Farchnad Dai Wledig ..... 23
 Effaith strategaethau eraill ar y CDLl Diwygiedig ..... 24
6. Rôl a Swyddogaeth: Y CDLl Diwygiedig ..... 25

# 1. Rhagarweiniad

## Diben y Papur hwn

1.1 Y papur hwn yw'r pedwerydd fersiwn o'r Papur Rôl a Swyddogaeth a gyhoeddwyd am y tro cyntaf fel tystiolaeth gefndir i'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir ym mis Rhagfyr 2018, ac wedyn fel tystiolaeth ar gyfer y CDLl Diwygiedig Adneuo cyntaf ar ddechrau 2020. Mae'r papur yn diweddaru'r ffigurau tai blaenorol at fis Ebrill 2023 ac yn ceisio ymhelaethu ar dystiolaeth flaenorol a llywio a rhoi rhesymau dros hierarchaeth aneddiadau'r Cynllun, gan gynnwys mabwysiadu dull clwstwr.... Dylid darllen y papur hwn ar y cyd â Phapur Pwnc y Fframwaith Gofodol a Dosbarthiad Tai sy'n darparu'r ddolen ar ffigurau tai a chyflenwi economaidd ledled y sir.

1.2 Mae'r papur yn rhoi cyflwyniad byr ar gyfansoddiad y boblogaeth a'r cartref; a phwysigrwydd y CDLl Diwygiedig yn erbyn strategaethau corfforaethol ac allanol eraill, sydd wedi caniatáu i'r Awdurdod Lleol ddeall rôl a swyddogaeth yr aneddiadau hynny o fewn y sir.

1.3 Bydd prif gorff y papur pwnc yn ceisio esbonio ffurfiant a rôl haenau a chlystyrau, ac mae'n rhoi cyfle i werthuso'r dystiolaeth bresennol sy'n ymwneud â'r hierarchaeth aneddiadau, ac i ystyried hefyd ffactorau megis graddfa, capasiti, cyd-destun gofodol, mân wahaniaethau lleol a nodweddion aneddiadau.

1.4 Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r Papur ddarparu ymarfer "cyflwyno'r cefndir" ehangach o ran rôl a swyddogaeth, ac mae'n mynd ymlaen i fframio trafodaeth ehangach ynglŷn â'r dull mwyaf priodol o ddosbarthu cyfraniad posibl anheddiad o fewn y CDLl diwygiedig.

## 2. Cyflwyno'r Cefndir

### Portread Gofodol: Sir o Gyferbyniadau


2.1 Mae Sir Gaerfyrddin yn Sir amrywiol gydag economi amaethyddol a thirwedd yr ardaloedd gwledig yn cyferbynnu ag ardal drefol a diwydiannol y de-ddwyrain. Fodd bynnag, gan mai Sir wledig yw hi gan fwyaf, mae gan yr Awdurdod Unedol ddwysedd poblogaeth o 78 o bobl i bob cilometr sgwâr yn unig, sy'n golygu mai dim ond Powys, Sir Benfro, Gwynedd a Cheredigion sy'n deneuach eu poblogaeth. Mae hyn yn cymharu â 140 o bobl i bob cilometr sgwâr yng Nghymru gyfan. Mae dosbarthiad y boblogaeth yn fwy amlwg yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin nag ydyw yn ne a dwyrain y Sir lle mae 65% o'r boblogaeth yn byw ar ryw 35% o'r tir.

2.2 Mae'r Sir mewn lleoliad da ar gefnffyrdd yr A40, yr A477 a'r A48. Mae eu cysylltiadau â'r gorllewin yn cysylltu â'r porthladdoedd fferi i Iwerddon, gyda'r M4 yn darparu cyswllt strategol â'r dwyrain. Caiff y cyswllt hwn rhwng y dwyrain a'r gorllewin ei bwysleisio ymhellach gan reilffordd Gorllewin Cymru sy'n ymestyn o Abertawe (a'r rhwydwaith rheilffyrdd ehangach - gan gynnwys Llundain) i Sir Benfro trwy Gaerfyrddin a Llanelli. Tua'r gogledd, mae'r A40 a'r A483 yn arwain i Ganolbarth Cymru, ac yn cael eu hategu gan Reilffordd Calon Cymru.

2.3 Mae Sir Gaerfyrddin yn enwog am ei hamgylchedd naturiol a hanesyddol, a cheir yno amrywiaeth o ddynodiadau. Amaethyddiaeth yw prif nodwedd ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin ac mae'r diwydiant amaeth a ffermio llaeth a defaid yn arbennig yn golygu bod y Sir yn un o'r ardaloedd amaethyddol pwysicaf yng Nghymru.

### Y CDLl mabwysiedig 2006-2021

2.4 Mae Ffigwr 1 yn dynodi'r opsiwn strategol a nodwyd yn y CDLl mabwysiedig sy'n seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae prif ganolfannau trefol y Sir yn cynnwys Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman / Cross Hands, ac mae cyfran fawr o'r ddarpariaeth tai a chyflogaeth bresennol o fewn yr ardaloedd hyn. Mae'r aneddiadau hyn yn dangos nodweddion cynaliadwyedd a hygyrchedd, yn enwedig o safbwynt llwybrau trafnidiaeth pwysig (gan gynnwys ffyrdd/rheilffyrdd) yn ogystal â gwasanaethau (e.e. gofal iechyd, adwerthu ac addysg). Dyma'r ardaloedd lle mae'r rhan fwyaf o boblogaeth y Sir yn byw.




*Ffigur 1* - Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin - Allwedd Diagram

2.5 Mae'r canolfannau trefol yn cael eu hategu gan ystod o aneddiadau o wahanol feintiau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at gyfansoddiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir. Mae natur amrywiol y cymunedau hyn, o safbwynt eu nodweddion gofodol ac o safbwynt eu rôl a'u swyddogaeth yn gyffredinol, yn eu gwneud yn rhan annatod o'r sir. Er enghraifft, caiff ardaloedd ôl-ddiwydiannol Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth yn aml eu gweld fel cadarnleoedd ieithyddol allweddol, tra bo ardaloedd Talacharn / Pentywyn yn cyfrannu i'r economi ymwelwyr.

2.6 Mae hefyd gyfres o aneddiadau sy'n cyflawni rôl drawsffiniol megis Castellnewydd Emlyn, Llanybydder, a Phont-tyweli, ac felly rhoddwyd ystyriaeth i'r ardaloedd hyn yn y CDLl presennol.

# 3. Cyfansoddiad Poblogaeth ac Aelwydydd

3.1 Gyda phoblogaeth o 187,900 yn 2021, mae Sir Gaerfyrddin yn gartref i oddeutu 6% o gyfanswm poblogaeth Cymru, sy’n golygu mai dyma’r pedwerydd Awdurdod Unedol mwyaf yng Nghymru (ar ôl Caerdydd, Abertawe a Rhondda Cynon Taf). O 2021, Sir Gaerfyrddin yw'r pumed lleiaf poblog o blith 22 awdurdod lleol Cymru, gydag ardal sy'n cyfateb i oddeutu dau gae pêl-droed ar gyfer pob preswylydd.

3.2 Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gorchuddio tua 9% o Sir Gaerfyrddin, ac amcangyfrifir bod 1% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn byw yn ardal y Parc Cenedlaethol.

3.3 Ers 2011, mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu +4,100 o bobl, sef cynnydd o 2.2% ers 2011. Cofnodwyd twf blynyddol uwch yn y boblogaeth (+0.7% y flwyddyn ar gyfartaledd) cyn 2008, gyda thwf blynyddol sy’n amlwg yn is yn cael ei gofnodi wedi hynny. Gellir priodoli cyfansoddiad poblogaeth y sir i’r canlyniadau canlynol:

- Mae Twf Naturiol yn negyddol - mae mwy o bobl yn marw nag sy'n cael eu geni;
- Mewnlif net o fudo mewnol sydd wedi bod yn brif ysgogydd o ran newid yn y boblogaeth;
- Roedd ymfudiad net yn uchel tan 2008, ac yna'n isel. Ers 2013/14 mae'r newid yn y boblogaeth wedi bod yn cynyddu ac mae cynnydd sydyn wedi bod yn lefel y mewnlif net, gan gyrraedd tua +1600 yn 2017/18 a chan ddangos cynnydd sylweddol o fwy na 700 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Mae cynnydd o 18.9% wedi bod yn y bobl 65 oed a hŷn
- Gostyngiad o 2.5% yn y bobl rhwng 15 a 64 oed.
- Gostyngiad o 0.8% yn y plant dan 15 oed.
- Cofnodir mewnlifiad net ymhlith yr holl grwpiau oedran hŷn (65+), sy’n cyfrannu at broffil Sir Gaerfyrddin o ran poblogaeth sy’n heneiddio;
- Mae cyfran y bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin a gafodd eu geni y tu allan i'r DU wedi gostwng 1% ers y Cyfrifiad diwethaf.

3.4 Wrth ystyried tueddiadau poblogaeth ac aelwydydd y gorffennol a'u perthynas wrth gefnogi amcanestyniadau'r dyfodol, mae'r Papur Amcanestyniad Poblogaeth ac Aelwydydd, yn nodi'r rhesymau dros ddefnyddio senario ddemograffig amgen tra bo'r Fframwaith Gofodol a'r Papur Dosbarthu yn darparu dadansoddiad manwl o elfennau o'r cyflenwad tai a'r dosbarthiad gofodol o fewn y CDLl diwygiedig.

# 4. Opsiwn Gofodol y CDLl diwygiedig a'i Hierarchaeth Aneddiadau

## Cefndir Opsiwn Gofodol

4.1 Wrth siapio twf y Sir yn y dyfodol, roedd y papur opsiynau gofodol yn cyflwyno chwe Opsiwn Gofodol Strategol posibl ar gyfer dosbarthu'r twf mewn tai a chyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin a ragwelir dros gyfnod y CDLl Diwygiedig. Ystyriwyd pob opsiwn yn erbyn nifer o nodweddion a allai gefnogi'r potensial hwn am ddatblygiad.

4.2 Roedd Strategaeth a Ffefrir y CDLl yn ceisio ystyried y Strategaeth Cymuned Gytbwys a Thwf Cynaliadwy fel yr Opsiwn a Ffefrir. Roedd y strategaeth honno'n gyfuniad o'r opsiynau a nodwyd yn y Papur Opsiynau Gofodol a chymerir camau yn ei chylch yn yr Ail GDLl Diwygiedig Adneuo.

4.3 Mae'r opsiwn cyfuno hwn yn ceisio cyflawni'r canlynol:

- Cydnabod ac adlewyrchu manteision buddsoddi a manteision economaidd i'r Sir a'i chymunedau drwy'r Fargen Ddinesig, a chyfleoedd eraill economaidd.
- Rhoi cyfleoedd i ardaloedd gwledig, gan sicrhau bod amrywiaeth y Sir a'r cymunedau'n cael ei chydnabod.
- Wrth greu twf cynaliadwy, cydnabod bod angen sicrhau bod ystod o seilwaith briodol ar gael i gefnogi hynny.
- Cydnabod y dylai twf fod yn gyflawnadwy, ac y dylai fod wedi'i gyfeirio'n bennaf tuag at anghenion cymuned, ond hefyd tuag at alw yn y farchnad.

4.4 Yng Nghynlluniau Datblygu blaenorol Sir Gaerfyrddin, mae aneddiadau tebyg wedi cael eu cynnwys yn yr un grŵp o fewn yr hierarchaeth aneddiadau, yn seiliedig ar fatrics sgorio gwasanaethau a chyfleusterau. Wrth i aneddiadau ennill mwy o bwyntiau, nodwyd eu bod 'yn fwy cynaliadwy' ac ar y cyfan roeddent yn tueddu i dderbyn mwy o'r twf mewn tai a chyflogaeth.

4.5 Fodd bynnag mae Adolygiad y CDLl a'r Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi nodi bod 'sgorio' aneddiadau a neilltuo twf yn y dyfodol i haenau o fewn yr hierarchaeth ar sail sgoriau cymaradwy wedi cyfyngu ar allu Sir Gaerfyrddin a'i haneddiadau i ymateb mewn modd hyblyg i anghenion y cymunedau. Er y gallai'r egwyddor o sgorio aneddiadau a dosrannu twf yn unol â hynny adlewyrchu cynaliadwyedd anheddiad, nid yw gwasgariad cyfrannol y twf o reidrwydd yn adlewyrchu graddfa'r datblygiad, na'r math o ddatblygiad sydd ei angen o fewn yr anheddiad hwnnw neu ei gymuned. Gwelwyd rhai aneddiadau'n darparu'r lefel o dai a

gynlluniwyd o fewn y CDLl drwy'r ymagwedd hon, tra gwelwyd ond ychydig o ddatblygiad mewn aneddiadau eraill, felly nid ydynt wedi perfformio'n unol â'r hyn a fwriadwyd yn y strategaeth.

4.6 Enghraifft o hyn yn Sir Gaerfyrddin yw drwy gymharu Porth Tywyn â Llanymddyfri. Mae'r ddau wedi'u lleoli yng ngwahanol rannau o'r Sir, ac yn chwarae rhan bwysig yn lleol. Mae Llanymddyfri yn cyflawni ei rôl naturiol yng ngogledd y Sir, drwy weithredu fel canolfan wasanaeth i'r dref a'r cyffiniau. Fodd bynnag, o safbwynt twf tai, y mae wedi 'perfformio'n' wael o ran darparu cartrefi newydd, o bosib oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol, dyrannu safleoedd anghywir, neu am fod graddfa'r tai newydd arfaethedig yn ormod i alluogi adeiladwyr lleol i'w codi.

4.7 I'r gwrthwyneb, mae Porth Tywyn yn cyflawni rôl wahanol gyda phwyslais neilltuol ar ddatblygu ac adfywio'r ardal o amgylch yr Harbwr. Gan ei fod yn agos at Lanelli, mae'r boblogaeth yn nes at ystod o gyfleoedd swydd, ac mae'n ddigon agos hefyd i ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau.

4.8 O ran hyn, byddai disgwyl yn naturiol i anheddiad fel Porth Tywyn ddarparu lefel ddatblygu sy'n wahanol i Lanymddyfri. Nid yw hyn yn tynnu oddi ar bwysigrwydd aneddiadau fel Llanymddyfri ond, yn syml, mae'n cydnabod bod y ddwy ardal o'r Sir yn wahanol o ran gofod a swyddogaeth, a'i bod hi'n rhy syml eu cynnwys ar yr un haen yn yr hierarchaeth. Bydd aneddiadau fel hyn yn wahanol oherwydd eu nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hefyd.

## Hierarchaeth Aneddiadau – Haenau

4.9 Er mwyn bodloni'r amcanion strategol yn yr opsiwn gofodol ar gyfer y CDLl diwygiedig, ystyrir bod angen ymagwedd wahanol i gefnogi a chyflawni twf o fewn y sir yn y dyfodol. Mewn egwyddor, caiff cyfres debyg o Haenau eu cyflwyno, ond caiff aneddiadau eu gwahanu i glystyrau sy'n sail i'r patrwm gofodol yn Sir Gaerfyrddin.

4.10 Mae'r Cynllun yn ceisio dosbarthu twf mewn modd sy'n adlewyrchu amrywiaeth yr aneddiadau, ac i wneud hynny mewn modd cynaliadwy. Bydd yn rhoi sylw i rôl a swyddogaeth yr aneddiadau, ond bydd hefyd yn derbyn ei bod hi'n bosibl nad yw rhai aneddiadau, oherwydd y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael, o reidrwydd yn cynrychioli'r opsiynau mwyaf priodol ar gyfer yr holl dwf economaidd a'r twf o ran tai. Mae

hyn yn adlewyrchu nifer o ffactorau, yn anad dim y cyfyngiadau amgylcheddol ond hefyd y twf a ddarparwyd yn yr aneddiadau hynny yn y gorffennol. Yn ogystal â hyn, mae dylanwadau trawsffiniol ac agosrwydd at aneddiadau cyfagos yn ffactorau dylanwadol i raddau amrywiol.

4.11 Bydd y dull hwn yn osgoi unrhyw dybiaeth bod yn rhaid i bob anheddiad gyfrannu at dwf. Yn lle hynny, bydd yn ystyried yr aneddiadau yn ôl eu rhinweddau gan roi sylw i'w cynaliadwyedd a'u safle yn yr hierarchaeth. Gan hynny, nid yw'n ceisio dosrannu datblygiad yn ofodol o fewn yr hierarchaeth drwy ddefnyddio dulliau dosbarthu neu gwotâu cyfrannol yn unig. Ystyrir felly y bydd y CDLl Diwygiedig wedi'i seilio ar ymwybyddiaeth o naws am le, yn hytrach na'i fod yn hyrwyddo fframwaith hierarchaidd haearnaidd. Mae'r ymagwedd yn y CDLl Diwygiedig yn gyson â'r pwyslais mewn polisi cynllunio cenedlaethol ar greu lleoedd. Yn hynny o beth, mae'r CDLl Diwygiedig yn ceisio cydnabod a dathlu amrywiaeth cymunedau'r Sir.

4.12 Mae'r haenau a nodir yn yr hierarchaeth anheddau fel a ganlyn, a rhoddir ystyriaeth i bob un yn ei thro isod:

- Prif Ganolfannau
- Canolfannau Gwasanaeth
- Pentrefi Cynaliadwy
- Pentrefi Gwledig
- Aneddiadau Gwledig Anniffiniedig

## Prif Ganolfannau

4.13 Yn y lle cyntaf, bydd y rhan fwyaf o'r datblygiad yn cael ei gyfeirio i brif haen yr hierarchaeth. Yn y brif haen, mae sylfaen y boblogaeth yn fwy, ac fe geir mynediad at amrywiaeth helaeth o wasanaethau a chyfleusterau. Gwasanaethir yr aneddiadau hyn yn dda gan y cyfleusterau hynny sy'n hollbwysig i gefnogi egwyddorion cynaliadwyedd ac sy'n darparu ar gyfer lefel uchel o dwf fesul cyfran. Maent yn cynrychioli aneddiadau trefol mawr a sefydledig a wasanaethir yn dda gan lwybrau trafnidiaeth cynaliadwy, ac sy'n gwasanaethu ardaloedd y tu hwnt i'w dalgylchoedd lleol.

4.14 Mae Llanelli yn rhan o Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli fel y nodwyd gan Cymru'r Dyfodol. Mae gwaith pellach a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro wedi ceisio mireinio maint gofodol yr

Ardal Dwf ac wedi dod i'r casgliad y dylai ei ffin ymestyn i gwmpasu ardal Rhydaman / Cross Hands. Mae safle'r ddwy ardal hyn (Llanelli a Rhydaman / Cross Hands) yn yr hierarchaeth aneddiadau felly'n cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol a'r dystiolaeth a ddarparwyd. Mae Caerfyrddin yn gwasanaethu fel ardal dwf ranbarthol a bydd ei ddyraniad hefyd yn cefnogi ei chymunedau

4.15 Nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol fod yr angen mwyaf am dai fforddiadwy a thai ar y farchnad yn y Prif Ganolfannau, lle mae'r rhan fwyaf o boblogaeth y Sir yn byw.

4.16 O ran y farchnad dai, bydd datblygwyr tai graddfa fawr a darparwyr tai fforddiadwy fel arfer yn datblygu mewn Prif Ganolfannau.

4.17 Isod ceir amlinelliad dangosol o natur y datblygiad sy'n debygol o gael ei ystyried yn briodol o fewn y Prif Ganolfannau.

- Safleoedd Strategol
- Ardaloedd Cyflogaeth graddfa mawr a bach
- Dyraniadau Tai
- Adfywio a Safleoedd Defnydd Cymysg
- Safleoedd tai bach (llai na 5 cartref);
- Darpariaeth Tai Fforddiadwy ar safleoedd sy'n cynnwys 5 neu fwy o unedau
- Cyfleoedd am dai ar hap-safleoedd
- Lle bo'n briodol, gall achosion hefyd godi lle bydd 'Safleoedd Cadw' yn cael eu nodi.

## Canolfannau Gwasanaeth

4.18 Mae'r aneddiadau hyn fel arfer wedi'u lleoli'n dda ar goridorau trafnidiaeth gynaliadwy, ac yn aml yn cynnwys ystod o gyfleusterau a gwasanaethau sy'n darparu ar gyfer anghenion craidd yr anheddiad a'r dalgylch lleol ehangach. Gall y canolfannau gwasanaeth hyn gynnwys darpariaeth addysg uwchradd yn ogystal â chyfleoedd manwerthu a siopau cyfleustra.

4.19 Isod ceir amlinelliad dangosol o natur y datblygiad sy'n debygol o gael ei ystyried yn briodol o fewn y Canolfannau Gwasanaeth.

### Canolfannau Gwasanaeth:

- Ardaloedd Cyflogaeth Graddfa Fach
- Dyraniadau Tai
- Darpariaeth Tai Fforddiadwy ar safleoedd sy'n cynnwys 5 neu fwy o unedau
- Safleoedd tai bach (llai na 5 cartref)
- Adfywio a Safleoedd Defnydd Cymysg
- Cyfleoedd am dai ar hap-safleoedd
- Lle bo'n briodol, gall achosion hefyd godi lle bydd 'Safleoedd Cadw' yn cael eu nodi.

## Pentrefi Cynaliadwy

4.20 Mae'r aneddiadau hyn fel arfer wedi'u lleoli'n rhesymol, yn agos at goridorau trafnidiaeth gynaliadwy, neu ar y coridorau hynny. Gallant gynnwys cyfleusterau a gwasanaethau a chanddynt ffocws cymunedol, sy'n aml yn cynnwys darpariaeth gofal iechyd sylfaenol a darpariaeth siopa lleol.

4.21 Datblygwyr tai graddfa fach a chanolig fel arfer fydd yn datblygu ar safleoedd yn y lleoliadau hyn**.**

4.22 Isod ceir amlinelliad dangosol o natur y datblygiad sy'n debygol o gael ei ystyried yn briodol o fewn y Pentrefi Cynaliadwy.

### Pentrefi Cynaliadwy:

- Dyraniadau Tai
- Tai fforddiadwy ar safleoedd tai sy'n cynnwys 5 neu fwy o unedau.
- Safleoedd tai bach (llai na 5 cartref)
- Cyfleoedd am dai ar hap-safleoedd
- Cynlluniau Eithriedig Gwledig Graddfa Fach ar gyfer Tai Fforddiadwy sy'n ffinio ag anheddiad

### Pentrefi Gwledig (Dim terfynau datblygu a dim dyraniadau tai)

4.23 Mae haen arall, Pentrefi Gwledig (Haen 4) yn cynnwys yr aneddiadau hynny y pennwyd terfynau datblygu ar eu cyfer mewn cynlluniau datblygu blaenorol. Yn aml bydd aneddiadau o'r fath wedi cynnwys gwasanaethau a chyfleusterau penodol yn y gorffennol. Ni fydd y rhain fel arfer yn bodoli mwyach, felly bydd statws yr anheddiad o fewn y CDLl diwygiedig yn adlewyrchu hynny.

4.24 Ar gyfer aneddiadau yn yr Haen Pentrefi Gwledig, mae'r CDLl diwygiedig yn cynnig y dylid defnyddio polisïau'n seiliedig ar feini prawf yn gysylltiedig â thai newydd a, lle bo'n briodol, twf cyflogaeth. Bydd y rhain yn pennu'r paramedrau ar gyfer y datblygiadau y gellir eu cyflawni , a lle y gellir eu lleoli'n fras. Fodd bynnag, byddai unrhyw benderfyniad yn cael ei ystyried yn unol â'r meini prawf a geir o fewn y polisi CDLl HOM3, ynghyd â pholisïau perthnasol ac ystyriaethau perthnasol eraill. Cyfeirir at y Papur Pwnc Terfynau Datblygu (Rhagfyr 2018).

4.25 Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Wledig hefyd yn dangos pwysigrwydd darparu tai mewn cyd-destun gwledig, a'r mathau o dai sydd eu hangen yn yr ardaloedd hyn er mwyn bodloni anghenion lleol.

4.26 Yn y Papur Pwnc Rôl a Swyddogaeth nodir gallu perthynol yr haen i ddarparu datblygiadau newydd, ac ystyrir ei safle mewn perthynas â'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael mewn aneddiadau eraill yn y Sir.

4.27 Isod ceir amlinelliad dangosol o natur y datblygiad sy'n debygol o gael ei ystyried o fewn y Pentrefi Gwledig.

- Safleoedd bach - tai ar safleoedd mewnlenwi neu estyniadau/rowndio
- Cynlluniau eithriedig gwledig graddfa fach ar gyfer tai fforddiadwy

## Aneddiadau Gwledig Anniffiniedig:

4.28 O fewn yr aneddiadau gwledig heb eu diffinio, bydd datblygiadau tai newydd yn cael eu cyfyngu i gyfleoedd bach lle mae tai fforddiadwy'n cael eu darparu i ddiwallu anghenion lleol. Bydd y cynigion hynny yn canolbwyntio ar ddatblygiadau mewnlenwi a chyfleoedd am estyniadau rhesymegol.


## Diffinio Clystyrau

4.31 O ystyried yr wybodaeth uchod a'r sail resymegol dros fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar hierarchaeth, bydd aneddiadau'n cael eu lleoli yn eu haenau ar sail eu potensial am dwf.

4.32 Ystyrir bod angen cam pellach gan fod y Cynllun yn ceisio dosbarthu'r twf mewn modd sy'n adlewyrchu amrywiaeth y Sir. Bydd cysylltu aneddiadau drwy ffurfio clystyrau o gymorth i gyflawni hyn.

4.33 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) yn rhoi pwyslais cryf ar greu lleoedd yn hytrach nag ymagwedd at dwf datblygiadau sy'n "canolbwyntio ar rifau". Gan hynny, mae ystyried clystyrau daearyddol ar gyfer fframwaith aneddiadau'r Sir yn ymagwedd fwy hyblyg, ac o gymorth i gysoni amrywiadau mewn disgwyliadau rhwng aneddiadau fu gynt yn yr un haen o hierarchaeth aneddiadau'r CDLl. Mae'r ymagwedd hon yn cydnabod rôl a swyddogaeth aneddiadau ar raddfa'r sir ac ar raddfa leol, ac o fewn eu clwstwr perthynol eu hunain. Yn yr ystyr hwn, mae'r ddarpariaeth twf a dyraniad aneddiadau i bob clwstwr yn ymateb i anghenion yr anheddiad hwnnw, ac yn adeiladu ar natur amrywiol cymunedau'r Sir.

4.34 Dengys Ffigwr 1 isod y clystyrau a nodwyd yn yr Ail GDLl diwygiedig Adneuo. Mae ardal y Cynllun wedi'i rhannu'n chwe chlwstwr daearyddol, pob un â phrif ganolfan neu ganolfan wasanaeth ar ben yr hierarchaeth a fyddai'n cefnogi'r aneddiadau eraill o fewn y clwstwr. Rhoddir ystyriaeth fanylach i'r sail resymegol dros nodi'r clwstwr a'r prif ganolfannau ynddo.




Ffigwr 1: Diagram Allwedd CDLl Adneuo

4.35 Dyma nhw:

- Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig
- Llanelli a De Cwm Gwendraeth
- Aman a Phen Uchaf Cwm Gwendraeth
- Teifi
- Pen Uchaf Dyffryn Tywi
- Gorllewin Sir Gaerfyrddin

## Clwstwr 1 - Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig

4.36 Mae'r clwstwr hwn yng nghanol y Sir a'r rhanbarth, ac wedi'i leoli ar gyfres o lwybrau priffordd a rheilffordd strategol oddi amgylch tref farchnad hanesyddol Caerfyrddin. Fel canolfan ranbarthol gyda'i swyddogaethau cysylltiedig, mae Caerfyrddin yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer darparu swyddi a chartrefi newydd, a hefyd fel canolfan fanwerthu fywiog, ac mae'r cyfleoedd yn y dyfodol yn debygol o ganolbwyntio ar ddarparu ystod a chymysgedd ehangach o safleoedd datblygu. Rhagwelir y bydd cyfran fawr o ddatblygiad y clwstwr wedi'i lleoli yng Nghaerfyrddin.

4.37 O amgylch y dref mae nifer o bentrefi gwledig â chysylltiadau da sy'n ymwneud â Chaerfyrddin fel yr anheddiad mwy, yn rhinwedd agosrwydd, cysylltiadau ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, a mynediad at wasanaethau a chyfleusterau.

4.38 Ceir llawer o ymwelwyr â'r ardal, ac mae ganddi nifer o atyniadau i ymwelwyr, gan gynnwys Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne, Fforest Brechfa lle ceir llwybrau beicio mynydd a cherdded, Rheilffordd Stêm Gwili, a thraeth a chastell Llansteffan.

4.39 Mae'r aneddiadau yn y clwstwr wedi'u rhannu fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Prif Ganolfan** | • Caerfyrddin | | |
| **Canolfannau Gwasanaeth** | • Pont-iets / y Meinciau / Pont-henri | | |
| **Pentrefi Cynaliadwy** | • Alltwalis<br>• Brechfa<br>• Bronwydd<br>• Capel Dewi<br>• Cwmduad<br>• Cwm-ffrwd<br>• Cynwyl Elfed | • Idole / Pentre-poeth<br>• Llanarthne<br>• Llanddarog<br>• Llandyfaelog<br>• Llan-gain<br>• Llangyndeyrn<br>• Llanpumsaint | • Llansteffan<br>• Llan-y-bri Nantgaredig<br>• Peniel<br>• Pont-ar-gothi<br>• Porth-y-rhyd<br>• Rhydargaeau |
| **Pentrefi Gwledig** | • Aber-nant<br>• Bancycapel<br>• Blaen-y-coed<br>• Croesyceiliog<br>• Crwbin<br>• Felin-gwm Isaf | • Felin-gwm Uchaf<br>• Hermon<br>• Llanegwad<br>• Nant-y-caws<br>• Nebo<br>• Pen-y-bont | • Pontantwn<br>• Pont-ar-sais<br>• Pontnewydd<br>• Talog<br>• Felin-wen |

**Tabl 1**

## Clwstwr 2 - Llanelli a De Cwm Gwendraeth

4.40 Mae'r clwstwr hwn ar hyd morlin Llanelli yn cadw ffocws datblygiadol cryf, ac mae ei botensial adfywio'n cael ei gydnabod yn Strategaeth Trawsnewidiadau y Cyngor, Bargen Ddinesig Bae Abertawe, a CDLl mabwysiedig Sir Gaerfyrddin.

4.41 Mae'r clwstwr hwn yn ne-ddwyrain y Sir, sydd o natur drefol yn bennaf. Mae'n hawdd iawn ei gyrraedd ar y ffordd (gan gynnwys yr M4) ac ar y trên. Gan ei fod yn agos at Abertawe, y mae'n strategol bwysig i Sir Gaerfyrddin, ac adlewyrchir hynny yn y dyheadau datblygu a nodwyd ar ei gyfer.

4.42 Mae Llanelli yn dal i fod yn ffocws ar gyfer darparu yn yr ardal hon, ynghyd â phentrefi ar gyrion y dref. Mae'r canolfannau gwasanaethau sy'n rhan o'r clwstwr hwn yn elfennau allweddol yn y gwaith o ddarparu tai a swyddi newydd o ystyried eu perthynas gyffredinol â gweddill y clwstwr. Mae gan y clwstwr hwn y dwysedd poblogaeth uchaf yn y sir.

4.43 Mae'r ardal yn cyfrannu'n gryf i'r sector manwerthu, gyda darpariaeth manwerthu amrywiol o ran maint a math yn ei haneddiadau. Nodir hefyd ei photensial o ran twristiaeth, gan gynnwys Cae Rasio Ffos Las yn Nhrimsaran a Llwybr Arfordirol y Mileniwm a Pharc Gwledig Pembre ar hyd morlin y de. Gellir cyfeirio at Bolisi SG3: Penrhyn Pen-bre i gael gwybodaeth ychwanegol.

4.44 O ran darparu cyflogaeth, yn Llanelli y ceir y rhan fwyaf o gyfleoedd, ac mae enw da'r sector gweithgynhyrchu traddodiadol yn parhau. Mae sylfaen sectorau'r ardal yn ehangu hefyd, ac adlewyrchir hynny yn y swyddi cyferbyniol sydd ar gael yn y Bynea, Dafen a Llynnoedd Delta.

| | | |
|---|---|---|
| **Prif Ganolfan** | Llanelli | |
| **Canolfannau Gwasanaeth** | • Porth Tywyn<br>• Fforest / Yr Hendy<br>• Llangennech | • Pen-bre<br>• Trimsaran / Carwe |
| **Pentrefi Cynaliadwy** | • Mynyddygarreg<br>• Pum-hewl / Horeb | • Llan-saint / Broadway |
| **Pentrefi Gwledig** | • Cynheidre<br>• Penymynydd | • Pedair-hewl |

Tabl 2

## Clwstwr 3 - Aman a Phen Uchaf Cwm Gwendraeth

4.45 Mae'r ardal hon yn drefol ac ôl-ddiwydiannol ei natur yn bennaf, ond mae cyfres o aneddiadau rhyng-gysylltiedig yn creu amrywiaeth ynddi. Mae’r broses o ddarparu tai a swyddi newydd wedi cael ei ganoli ar goridor yr A48, ac mae Cross Hands ac aneddiadau cyfagos yn ffocws allweddol. Mae Rhydaman yn chwarae rhan bwysig fel canolfan wasanaeth, gan ddarparu cyfleusterau manwerthu, cyflogaeth, addysg a hamdden lleol.

4.46 Ystyrir Cymoedd Aman a Gwendraeth (uchaf) yn fröydd allweddol o safbwynt ieithyddol, ac maent yn gydrannau allweddol er mwyn diffinio'r ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'r aneddiadau hyn yn y Cymoedd yn cyflawni swyddogaeth fel canolfannau gwasanaeth lleol yn hytrach na'u bod yn ffocws ar gyfer datblygiad newydd ar raddfa fawr. Mae amgylchedd naturiol yr ardal yn cyfrannu at ei chymeriad hefyd, ac mae prosiect Caeau'r Mynydd Mawr yn elfen annatod o ran cyfryngu a chydbwyso galwadau croes (Ardal Arbennig o Gynefin Cadwraeth).

<table>
<tr><td>Prif Ganolfan</td><td colspan="3">• Rhydaman / Cross Hands</td></tr>
<tr><td>Canolfannau Gwasanaeth</td><td colspan="2">• Brynaman<br>• Glanaman / y Garnant</td><td>• Pontyberem / Bancffosfelen</td></tr>
<tr><td>Pentrefi Cynaliadwy</td><td colspan="2">• Carmel<br>• Cwmgwili</td><td>• Foelgastell<br>• Ystradowen</td></tr>
<tr><td>Pentrefi Gwledig</td><td>• Capel Seion<br>• Cefn-bryn-brain<br>• Derwydd<br>• Dre-fach (Llandyfan)</td><td>• Heol Ddu<br>• Maes-y-bont<br>• Milo<br>• Mynyddcerrig<br>• Pant-llyn</td><td>• Pentregwenlais<br>• Rhosaman<br>• Stag and Pheasant<br>• Temple Bar</td></tr>
</table>

Tabl 3

## Clwstwr 4 - Teifi

4.47 Cymeriad gwledig sydd i'r ardal yn bennaf, ac mae sylfaen y boblogaeth yn is felly mae'r clwstwr hwn wedi'i ddosbarthu yn Haen 2 - Canolfan Wasanaeth ac is.

4.48 Mae Castellnewydd Emlyn yn cyflawni rôl fel canolfan wasanaethau allweddol ar gyfer yr ardal (yn enwedig o ran addysg, cyflogaeth a manwerthu lleol) yn hytrach na bod yn ffocws ar gyfer datblygiadau newydd ar raddfa fawr. Ni chafwyd rhyw lawer o ddatblygiadau newydd

yn yr aneddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y clwstwr hwn dros gyfnod y CDLl presennol, ac mae'r papur hwn yn ceisio mynd i'r afael â hyn. Nodir perthynas agos yr ardal â'r cymunedau hynny yng Ngheredigion, yn ogystal â chyfraniad aneddiadau fel Llandysul, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi at gymunedau yn yr ardal hon. Cydnabyddir y berthynas hon mewn gwahanol ddogfennau polisi, ac mae'n ystyriaeth allweddol wrth ddosbarthu a chyflenwi tai yn yr 2il CDLl diwygiedig Adneuo.

4.49 Rhoddir ystyriaeth i safle gofodol yr ardal, cyfyngiadau ar ddatblygu ac anghenion tai, wrth gadarnhau rôl yr ardal yn y dyfodol o ran darparu ar gyfer twf. Mae llawer o'r aneddiadau o fewn y clwstwr hwn yn edrych tua Chaerfyrddin fel y brif ganolfan ar gyfer manwerthu, swyddogaethau gweinyddol, iechyd a chyfleoedd am swyddi y tu allan i fyd amaethyddiaeth.

| **Prif Ganolfan** | | | |
|---|---|---|---|
| **Canolfannau Gwasanaeth** | • Llanybydder<br>• Castellnewydd Emlyn<br>• Pencader | | |
| **Pentrefi Cynaliadwy** | • Capel Iwan<br>• Cenarth<br>• Cwm-ann<br>• Dre-fach / Felindre | • Llanfihangel-ar-arth<br>• Llangeler<br>• Llanllwni<br>• New Inn | • Pentre-cwrt<br>• Pontyweli<br>• Saron / Rhos<br>• Tre-lech<br>• Waungilwen |
| **Pentrefi Gwledig** | • Banc-y-ffordd<br>• Bryn Iwan<br>• Cwmhiraeth<br>• Cwm-pen-graig | • Dolgran<br>• Drefelin<br>• Gwyddgrug | • Pen-boyr<br>• Pencarreg<br>• Pentrecagal |

Tabl 4

## Clwstwr 5 - Pen Uchaf Dyffryn Tywi

4.50 Cymeriad gwledig sydd i'r ardal yn bennaf, ac mae sylfaen y boblogaeth yn is felly mae'r clwstwr hwn wedi'i ddosbarthu yn Haen 2 yn yr hierarchaeth - Canolfan Wasanaeth ac is.

4.51 Llandeilo, Llanymddyfri a Llangadog sy’n cyflawni rolau’r canolfannau gwasanaethau allweddol yn y clwstwr hwn, ac maent yn cefnogi’r ddarpariaeth gymdeithasol a’r ddarpariaeth o ran cyflogaeth, addysg a manwerthu lleol ar gyfer yr aneddiadau llai. Mae'r ardal wedi'i chysylltu'n dda â'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach ar hyd yr A40, yr A476 a'r rheilffordd.

4.52 Gall ystyried sefyllfa ofodol yr ardal, ei chyfyngiadau ar ddatblygu (e.e. perygl o lifogydd ac ansawdd y dirwedd), ac anghenion tai fod o gymorth i ddeall a llywio unrhyw rôl a allai fod gan yr ardal yn y dyfodol o safbwynt datblygu. Mae lleoliad deniadol yr ardal yn cael ei ffurfio gan ddyffryn yr afon.

4.53 Yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, mae llawer o'r aneddiadau hyn yn edrych tua Chaerfyrddin neu Rydaman / Cross Hands fel y prif ganolfannau ar gyfer darpariaeth fwy o ran manwerthu a chyflogaeth.

| **Prif Ganolfan** | | | |
|---|---|---|---|
| **Canolfannau Gwasanaeth** | • Llandeilo<br>• Llanymddyfri | • Llangadog | |
| **Pentrefi Cynaliadwy** | • Abergorlech<br>• Caio<br>• Cwm-du<br>• Cwmifor | • Cwrt-henri<br>• Ffarmers<br>• Llanfynydd<br>• Llansawel | • Llanwrda<br>• Salem<br>• Talyllychau |
| **Pentrefi Gwledig** | • Ashfield Row<br>• Bethlehem<br>• Derwen-fawr<br>• Capel Isaac<br>• Cil-y-cwm<br>• Crug-y-bar<br>• Cwm-du<br>• Cynghordy | • Dryslwyn<br>• Ffaldybrenin<br>• Felindre (Dryslwyn)<br>• Felindre (Llangadog)<br>• Llwyn Aur<br>• Llangathen<br>• Llansadwrn<br>• Maenordeilo | • Pen-y-banc<br>• Porth-y-rhyd<br>• Pumsaint<br>• Rhandir-mwyn<br>• Rhydcymerau<br>• Siloh<br>• Trap<br>• Waun Ystrad Meurig |

Tabl 5

## Clwstwr 6 - Gorllewin Sir Gaerfyrddin

4.54 Cymeriad gwledig sydd i'r ardal yn bennaf, ac mae sylfaen y boblogaeth yn is felly mae'r clwstwr hwn wedi'i ddosbarthu yn Haen 2 - Canolfan Wasanaeth ac is.

4.55 Gyda'i gysylltiadau â Gorllewin Cymru, mae datblygu yn y clwstwr hwn wedi canolbwyntio ar aneddiadau Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf yn draddodiadol. Yr aneddiadau hyn yn bennaf sy’n cyflawni rolau’r canolfannau gwasanaethau allweddol yn y clwstwr hwn, ac maent yn cefnogi’r ddarpariaeth gymdeithasol a’r ddarpariaeth o ran cyflogaeth, addysg a manwerthu lleol ar gyfer yr aneddiadau llai. Mae'r ardal wedi'i chysylltu'n dda â'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach trwy'r A40, yr A477 a rheilffordd Llundain – Abergwaun. Ceir

cysylltiadau da rhwng gogledd orllewin pellaf y clwstwr ar hyd yr A478 i Geredigion a Sir Benfro.

4.56 Mae ei berthynas â Sir Benfro a'i forlin hardd wedi bod yn atynfa gref i ymwelwyr, gyda Thalacharn a Phentywyn yn gwneud cyfraniad pwysig at ymdeimlad cyffredinol o le yr ardal, ac i'r economi ymwelwyr. O ran twristiaeth, mae'r arlwy yn yr ardal hon yn arfordirol.

4.57 Yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, mae llawer o'r aneddiadau hyn yn edrych tua Chaerfyrddin fel y prif ganolfan ar gyfer darpariaeth fwy o ran manwerthu a chyflogaeth.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Prif Ganolfan** | | | |
| **Canolfannau Gwasanaeth** | • Sanclêr / Pwll-trap | • Hendy-gwyn ar Daf<br>• Talacharn | |
| **Pentrefi Cynaliadwy** | • Bancyfelin<br>• Efail-wen<br>• Glandy Cross<br>• Llanboidy | • Llanddowror<br>• Llangynin<br>• Llangynog | • Llanmilo<br>• Meidrim<br>• Pentywyn |
| **Pentrefi Gwledig** | • Blaen-waun<br>• Broadway<br>• Cross Inn<br>• Cwm-bach | • Cwmfelin-boeth<br>• Cwmfelinmynach<br>• Llanfallteg | • Llanglydwen<br>• Llansadyrnin<br>• Rhos-goch |

# 5. Ystyried Strategaethau eraill

5.1 Ategir y broses o baratoi cynllun gan ddealltwriaeth o'i berthynas ag ystod o gynlluniau a strategaethau eraill. Yn hyn o beth mae datblygu hierarchaeth anheddu gadarn yn adlewyrchu i raddau amrywiol effaith y strategaethau eraill hyn ar rôl a swyddogaeth aneddiadau.

5.2 Mae'r canlynol yn amlinellu rhai o'r strategaethau cyfredol a datblygol sy'n effeithio ar ddatblygu'r Ail GDLl Diwygiedig Adneuo. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod hyn yn gynhwysfawr, gan fod CDLl sy'n datblygu yn ymateb i strategaethau sy'n datblygu, tra bydd rhai newydd hefyd yn dod i'r amlwg wrth baratoi'r CDLl Diwygiedig.

## Polisi Cynllunio Cymru

5.3 O ran polisi cenedlaethol, cyfeirir at gynnwys Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 11 (sy'n rhoi pwyslais sylweddol ar rôl cynllunio wrth greu ymdeimlad o le.) Mae gan y pwyslais hwn ar greu lleoedd berthynas uniongyrchol â rôl a swyddogaeth aneddiadau, yn enwedig drwy gynaliadwyedd a meithrin llesiant mewn cymunedau. Y cyfrifoldeb hwn dros gynlluniau datblygu fydd yn cyfrannu tuag at greu lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant.

## Cymru’r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040

5.4 Fe wnaeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddarpariaeth ar gyfer paratoi Cynllun Cenedlaethol newydd a gyhoeddwyd yn Chwefror 2021. Fe'i gelwir 'Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040' ac mae'n dylanwadu ar holl lefelau'r system gynllunio yng Nghymru ac yn helpu i lunio Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a baratoir gan gynghorau ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol.

5.5 Mae Sir Gaerfyrddin yn Rhanbarth y De-orllewin, ac mae Llanelli a'r rhan fwyaf o dde-ddwyrain y sir o fewn Ardal Dwf Genedlaethol. Mae hyn yn dangos ei phwysigrwydd fel y brif ganolfan bresennol o ran poblogaeth, cyflogaeth a gwasanaethau.

5.6 Mae Caerfyrddin yn rhan o'r Ardal Dwf Ranbarthol a bydd yn parhau i ddarparu swyddi, hamdden, manwerthu a chyfleoedd diwylliannol, addysg a gwasanaethau iechyd. Nodir cysylltedd cenedlaethol y sir.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

5.7 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, fel cynrychiolydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, baratoi Cynllun Llesiant. Mae amcanion llesiant wedi cael eu datblygu gan y Cyngor. Nodir hefyd bod Polisi Cynllunio Cymru yn ceisio fframio ystyriaeth i gynllunio defnydd tir yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015. Ceir pwyslais cryf ar ddulliau creu lleoedd yn hytrach na dull “sydd â ffocws ar niferoedd” o fynd ar drywydd datblygu preswyl.

5.8 Wrth baratoi'r CDLl diwygiedig, rhoddwyd ystyriaeth i gynnwys Deddf Llesiant Dyfodol (Cymru) a delir ati i wneud hynny, ac mae hyn wedi'i gydnabod a'i integreiddio fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Strategaeth a Ffefrir a'i fframwaith anheddu.

## Dinas-ranbarth Bae Abertawe

5.9 Ar lefel ranbarthol, mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe sydd hefyd yn cwmpasu ardaloedd Awdurdodau Lleol Sir Benfro, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Llofnodwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sydd werth £1.3 biliwn, ym mis Mawrth 2017. Honnir y bydd y fargen yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, yn rhoi hwb o £1.8 biliwn i’r economi leol, ac yn creu bron i 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf. Mae 2 brosiect penodol wedi'u nodi ar gyfer Llanelli a Chaerfyrddin ac mae'r ddau wedi'u cydnabod o fewn y Strategaeth a Ffefrir fel safleoedd strategol.

5.10 Mae'r goblygiadau economaidd a demograffig sy'n deillio o'r buddsoddiadau o'r Fargen Ddinesig wedi'u cydnabod o fewn y Strategaeth a Ffefrir. Mae'n amlwg hefyd y bydd sgil-fanteision anochel ledled cymunedau. Yn hyn o beth mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cydnabod ffocws y prosiectau yn y Prif Ganolfannau, ond mae hefyd yn cydnabod y gall fod effeithiau cadarnhaol ar aneddiadau sy'n is yn yr hierarchaeth.

## Trawsnewid: Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin – 2015-2030

5.11 Cyflawni'r Trawsnewidiadau: Mae Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gâr – 2015-2030 gan weinyddiaeth wleidyddol y Cyngor, yn darparu cyfle arloesol i fanteisio ar dwf a buddsoddiad. Ei nod yw hybu’r economi leol a chreu 5,000 o swyddi ledled y Sir erbyn 2030. Er ei bod yn bennaf yn thematig o ran natur, mae dimensiwn gofodol iddi o ran amlygu safleoedd strategol a 6 phrosiect trawsnewidiol allweddol. Yn hyn o beth mae'r papur rôl a swyddogaeth a'r Strategaeth a Ffefrir yn cydnabod ei amcanion strategol, y buddsoddiad a'r potensial economaidd.

## Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin

5.12 Yn y cynllun "Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf (2018)", mae'r Cyngor wedi nodi bron i 100 o brosiectau, cynlluniau neu wasanaethau sy'n flaenoriaeth y mae'n dymuno'u cyflawni dros y pum mlynedd nesaf i wneud Sir Gaerfyrddin "y lle gorau i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef". Ceir Strategaeth Gorfforaethol newydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y cyfnod 2018-2023 – "Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin".

## Y Rhaglen Moderneiddio Addysg

5.13 Yn 2005 mabwysiadodd y Cyngor ei Raglen Moderneiddio Addysg. Nod y RhMA yw sicrhau bod y rhwydwaith o ysgolion yn diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol, a'i fod yn gwneud hynny mewn ffordd strategol ac mewn ffordd sy'n effeithiol yn weithredol. Trwy wneud hyn, mae'r RhMA yn nodi gofynion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol i sicrhau darpariaeth addas a digonol o ran lleoedd mewn ysgolion ac mae'n nodi cynlluniau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol mewn modd cydgysylltiedig a strwythuredig.

5.14 Mae Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor yn ddull strategol uchelgeisiol a blaengar sy'n darparu cyfleusterau addysg o'r radd flaenaf ledled y Sir. Wrth ddatblygu'r Papur Rôl a Swyddogaeth hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud, ac mae hefyd yn ystyried y gwaith sydd wedi'i raglennu ar gyfer y dyfodol.

## Cynllun Cyflawni Cartrefi Fforddiadwy

5.15 Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy 2016 – 2020: mae hwn yn nodi gweledigaeth y Cyngor dros bum mlynedd ar gyfer cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Mae'r rhaglen wedi cyrraedd ei tharged o ddarparu dros 1000 o dai fforddiadwy ychwanegol dros bum mlynedd, gyda chyfanswm buddsoddiad o dros £60m. Roedd yn nodi sut a ble y bydd mwy o dai'n cael eu darparu a pha adnoddau fydd yn cael eu defnyddio a sut y gellid cael gafael ar fwy o bosibl. Mae'n targedu cymorth ble mae'r angen mwyaf, mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae'r Cynllun Cyflawni Tai Fforddiadwy bellach wedi'i ddiweddaru i gynnwys y cyfnod 2022-2026

5.16 Mae'r Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy yn rhannu'r sir yn bedair ardal weithredu, ac mae gan bob un ohonynt strategaeth gyflawni. Mae'r ardaloedd gweithredu'n cynnwys:

- Ardal Weithredu Caerfyrddin a'r Gorllewin

- Ardal Weithredu Trefi Gwledig a Marchnad Sir Gaerfyrddin
- Ardal Weithredu Rhydaman a Dyffryn Aman
- Ardal Weithredu Llanelli a’r Cylch

5.17 Llanelli a'r Cylch yw'r ardal sydd â'r angen mwyaf am dai. Mae hyn yn dilyn patrwm syml sy’n golygu bod yr angen ar ei fwyaf yn ardaloedd mwyaf poblog y sir.

5.18 Wrth ddarparu tai fforddiadwy i ddiwallu’r angen am dai, bydd lleoliad aneddiadau o fewn yr hierarchaeth aneddiadau’n ystyriaeth bwysig. Hefyd, bydd ffactorau cynaliadwyedd megis darparu cludiant cyhoeddus, agosrwydd at ddarpariaeth cyflogaeth a lleihau’r angen am siwrneiau mewn ceir yn arwyddocaol i ategu elfennau ac amcanion eraill y CDLl diwygiedig.

## Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

5.19 Ceir pwyslais corfforaethol cynyddol ar ddatblygu dealltwriaeth o gyfraniad posibl ardaloedd gwledig, gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu. Gall y Papur hwn gynnig cyfleoedd i gyfrannu tuag at eu trafodaethau fel rhan o adolygiad lefel uchel.

## Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

5.20 Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn ceisio ystyried cyflwr y farchnad dai gyfan o fewn y sir gan gynnwys asesiad o'r angen am dai fforddiadwy o ddeiliadaeth wahanol a gwahanol anghenion cymunedau sy'n cynnwys gofynion tai pobl hŷn, myfyrwyr, pobl ag anableddau ac anghenion tai lleol ar gyfer tai ar y farchnad. Mae data'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wedi'i rannu'n bedair 'Ardal Weithredu', sy'n debyg i'r hyn sydd o fewn y Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy. Mae'n ceisio deall yn rhifiadol yr angen am dai o fewn y sir. Bydd y wybodaeth hon yn llunio'r math o ddatblygiadau sydd eu hangen o fewn y sir i ddiwallu'r angen hwnnw, ac yn bwysicach byth, leoliad yr angen hwn. Byddai hyn o gymorth i lywio'r hierarchaeth a nodir yn fframwaith gofodol y CDLl diwygiedig.

## Asesiad o'r Farchnad Dai Wledig

5.21 Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Wledig yn astudiaeth bwrpasol o'r angen am dai fforddiadwy gwledig yn Sir Gaerfyrddin gyda'r nod penodol o godi tai newydd lle mae eu hangen. Mae'n ceisio deall dynameg a gyrwyr y farchnad dai ac yn rhoi adolygiad o nodweddion y stoc preswylfeydd gwledig.

5.22 Yn debyg i'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, bydd y wybodaeth a gesglir o'r astudiaeth wledig yn llunio'r math o ddatblygiadau sydd eu hangen mewn rhannau gwledig o'r sir i ddiwallu'r angen hwnnw, ac yn bwysicach byth, leoliad yr angen hwn. Byddai hyn o gymorth i lywio'r hierarchaeth a nodir yn fframwaith gofodol y CDLl diwygiedig.

## Effaith strategaethau eraill ar y CDLl Diwygiedig

5.23 Bydd pob astudiaeth a amlygir yn y bennod hon yn chwarae rôl wrth lunio cynnwys y CDLl diwygiedig. Mae glynu wrth gynlluniau a strategaethau eraill yn elfen bwysig o'r CDLl, yn enwedig o ran y Profion Cadernid (Prawf 1) a nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.


# 6. Rôl a Swyddogaeth: Y CDLl Diwygiedig

# Clwstwr 1 - Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig

6.1 Mae'r clwstwr hwn yng nghanol y Sir a Rhanbarth y De-orllewin, ac mae wedi'i leoli ar gyfres o lwybrau priffordd a rheilffordd strategol oddi amgylch tref farchnad hanesyddol Caerfyrddin. Fel canolfan ranbarthol gyda'i swyddogaethau cysylltiedig, mae Caerfyrddin yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer darparu swyddi a chartrefi newydd, a hefyd fel canolfan fanwerthu fywiog, ac mae'r cyf-leoedd yn y dyfodol yn debygol o ganolbwyntio ar ddarparu ystod a chymysgedd ehangach o saf-leoedd datblygu. Mae nifer o bentrefi gwledig â chysylltiadau da yn amgylchynu'r dref.

6.2 O ran y ddarpariaeth tai o fewn y CDLl diwygiedig, mae'r clwstwr hwn yn bwriadu datblygu 1,690 o unedau neu 24.77% o'r ffigur gofynnol yr ymrwymwyd iddo a'r dyraniad tai cyffredinol a bennwyd ym Mholisi SP4. Y clwstwr hwn yw'r clwstwr ail fwyaf o fewn yr hierarchaeth aneddiadau i ddarparu ar gyfer datblygiadau newydd.


6.3 O ran y data a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, mae'r clwstwr hwn yn dod o fewn 3 o'r Ardaloedd Gweithredu Tai Fforddiadwy, ac yn nodi gofyniad mawr am dai fforddiadwy, yn bennaf yn yr ardaloedd mwy trefol lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn byw.




| | | | |
|---|---|---|---|
| **Prif Ganolfan** | Caerfyrddin | | |
| **Canolfan Wasanaeth** | Pont-iets / Y Meinciau / Pont-henri<br>Glanyfferi | | |
| **Pentrefi Cynaliadwy** | Alltwalis<br>Brechfa<br>Bronwydd<br>Capel Dewi<br>Cwmduad<br>Cwm-ffrwd<br>Cynwyl Elfed | Idole / Pentre-poeth<br>Llanarthne<br>Llanddarog<br>Llandyfaelog<br>Llan-gain<br>Llangyndeyrn<br>Llanpumsaint | Llansteffan<br>Llan-y-bri<br>Nantgaredig<br>Peniel<br>Pontargothi<br>Porth-y-rhyd<br>Rhydargaeau |
| **Pentrefi Gwledig** | Aber-nant<br>Bancycapel<br>Blaen-y-coed<br>Croesyceiliog<br>Crwbin<br>Felin-gwm Isaf | Felin-gwm Uchaf<br>Hermon<br>Llanegwad<br>Nant-y-caws<br>Nebo<br>Pen-y-bont | Pontantwn<br>Pont-ar-sais<br>Pontnewydd<br>Talog<br>Felin-wen |

| Clwstwr | Haen | Ffigwr HOM1 | Ffigwr Dyrannu Tai | Ymrwymiad (Unedau Adeiledig a safleoedd gyda chaniatad cynllunio) |
|---|---|---|---|---|
| Clwstwr 1 | Haen 1 | 1283 | 724 | 559 |
| | Haen 2 | 87 | 29 | 58 |
| | Haen 3 | 320 | 167 | 153 |
| | **Cyfanswm** | **1690** | **920** | **770** |

## Prif Ganolfan – Caerfyrddin




6.4 Mae Caerfyrddin yn dref farchnad fywiog a ffyniannus, ac mae ei lleoliad cynaliadwy ar gyffordd yr A48 a'r A40, yn ogystal â'r cyswllt rheilffordd rhwng Llundain ac Abergwaun yn sicrhau ei bod yn gweithredu fel y porth strategol yng Ngorllewin Cymru. Fel prif ganolfan weinyddol ar gyfer y rhanbarth a Sir Gaerfyrddin, mae'r dref yn gyflogwr pwysig yn y Sir ac yn gwasanaethu fel canolfan fanwerthu ranbarthol.

6.5 Mae natur gynaliadwy Caerfyrddin a'i chapasiti am dwf yn tanlinellu pwysigrwydd y dref a bydd hyn yn sicrhau y bydd ei rôl fel canolfan ar gyfer swyddi, adwerthu, tai, iechyd a darpariaeth hamdden yn parhau.

6.6 Caiff y rôl amlwg hon sydd gan Gaerfyrddin ei hadnabod yng Gnhymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol sy'n cydnabod bod y dref yn hollbwysig i ddarparu twf rhanbarthol.

6.7 Fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe mae gan Gaerfyrddin un o'r prif brosiectau newydd yn Sir Gaerfyrddin, sef Yr Egin – prosiect y diwydiannau creadigol, sydd wedi'i leoli ar bwys y Brifysgol yng Nghaerfyrddin.

### Cymeriad a Phoblogaeth

6.8 Mae Afon Tywi yn rhannu'r dref yn ddwy, gyda llawer o'r ardaloedd isel o fewn y parthau lle ceir perygl o lifogydd. I'r de o'r afon, mae'r tir yn codi ym Mhensarn a Llangynnwr. Mae rhan ogleddol Caerfyrddin yn codi'n raddol wrth i'r ardal drefol ymestyn o ganol y dref, sy'n cynnwys rhan hŷn y dref a'r ardaloedd mwy trwchus eu poblogaeth. Mae llawer o ardaloedd yng nghanol y dref wedi'u lleoli mewn ardal gadwraeth.

6.9 Mae Nant-y-Ci wedi'i leoli ar ochr orllewinol Caerfyrddin hefyd. Mae datblygu diweddar yn Nant-y-Ci yn cynnwys adleoli'r farchnad amaethyddol o ganol y dref ac unedau eraill sy'n arbenigo mewn amaethyddiaeth. Mae'r cae sioe'n denu digwyddiadau amrywiol trwy gydol y flwyddyn hefyd. Mae gan y dref (heb gynnwys Abergwili (2,322) a Llangynnwr (2,647) boblogaeth o 11, 454 (Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2019, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol),.

6.10 Mae nifer o bentrefannau a phentrefi llai wedi'u lleoli ar bwys y dref – mae Abergwili'n gorwedd i'r dwyrain, Llangynnwr i'r de, Llanllwch a Travellers Rest i'r Gorllewin a Threfychan i'r gogledd.

## Darpariaeth Adwerthu

6.11 Mae Caerfyrddin yn dref farchnad fawr â darpariaeth fanwerthu sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sy'n perfformio'n dda ac mae'n gwasanaethu ystod eang o gymunedau yn lleol ac yn rhanbarthol, gan gynnig cymysgedd o enwau sydd i'w gweld yn genedlaethol ar y stryd fawr ynghyd â siopau manwerthu lleol ac arbenigol llai. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae arlwy adwerthu a masnachol canol y dref wedi gwella yn sgil adeiladu datblygiad Rhodfa'r Santes Catrin. Caiff canol y dref ei ategu gan amryw siopau gwerthu nwyddau cymharol a chyfleustra ym Mharc Adwerthu Parc Pensarn.

6.12 Diffinnir Caerfyrddin yn y CDLl Adneuo diwygiedig fel y Prif Canol Tref mewn perthynas â'r hierarchaeth adwerthu.

## Darpariaeth o ran Twf Tai

6.13 Mae'r mwyafrif o'r datblygiadau cyfredol ac arfaethedig yng Nghaerfyrddin o fewn y CDLl mabwysiedig wedi'u cydgrynhoi ar ochr orllewinol y dref sy'n cynnwys safle Gorllewin Caerfyrddin. O fewn y CDLl mabwysiedig, diffinnir yr ardal hon fel Safle Strategol, ond yn y CDLl diwygiedig, fe'i nodir fel safle Defnydd Cymysg – er nad yw ei bwysigrwydd yn cael ei leihau yng nghyd-destun twf Caerfyrddin. Yn yr ardal fawr hon mae 214 o gartrefi wedi'u darparu yn ystod camau cynnar y CDLl mabwysiedig, ac mae cwblhau'r ffordd gyswllt newydd i gysylltu pen gogleddol Heol Ffynnon Job yn agor tir i fyny ar gyfer tai a chyfleusterau cymunedol newydd. Mae'r ardal hon yn cynrychioli 59% o'r dyraniadau cyffredinol a nodwyd ar gyfer Caerfyrddin yn y CDLl mabwysiedig.

6.14 O ystyried natur y gostyngiad yn y gofyniad twf tai ar gyfer y CDLl diwygiedig, bydd ardal datblygadwy y safle cyfan yn ymestyn dros y CDLl diwygiedig ac unrhyw Gynllun Datblygu dilynol, gan arwain at gwblhau bron i 1,100 o dai newydd.

6.15 O fewn y CDLl diwygiedig mae'r ddarpariaeth o ran twf tai yn ardal Caerfyrddin wedi'i dosbarthu ar hyd a lled y dref, ac mae dyraniadau yn Abergwili, Llangynnwr, Pibwrlwyd, a phen gogleddol y dref.

6.16 Er mwyn cyflawni'r angen hwn am dai, mae gan adeiladwyr tai cenedlaethol a lleol ddatblygiadau o fewn y dref.


## Darpariaeth Cyflogaeth

6.17 O ran y defnyddiau cyflogaeth Dosbarth B traddodiadol mae gan Gaerfyrddin dros 25 ha o dir sydd wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflogaeth yn y CDLl cyfredol ac mae gan y dref swm tebyg o dir (wedi'i anodi yn y CDLl) sy'n cynnal gweithgareddau cyflogaeth presennol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r dref yn bwysig fel cyflogwr ar raddfa fawr trwy'r Cyngor Sir, Ysbyty Glangwili a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

## Casgliad

6.18 Mae Caerfyrddin yn darparu rôl ranbarthol a lleol bwysig o ran cyflogaeth, manwerthu a hamdden ac o ganlyniad mae'n lle dymunol i fyw. Mae natur gynaliadwy'r dref ynghyd â'i chyfleusterau presennol a'i chapasiti i dderbyn twf yn dangos pwysigrwydd y dref a bydd yn sicrhau ei rôl barhaus fel canolfan ranbarthol ar gyfer cyflogaeth, manwerthu, tai, iechyd a darpariaeth hamdden. Gan hynny, bydd ei dynodiad fel Prif Ganolfan yn golygu mai dyma ble y gwelir y mwyafrif o ddatblygiadau newydd yn y clwstwr hwn. Wrth ddynodi Caerfyrddin fel prif ganolfan y clwstwr, bydd yn cefnogi'r aneddiadau o'i hamgylch fel y sail i'w hanghenion cymdeithasol ac economaidd.

## Canolfan Wasanaeth - Pont-iets / Y Meinciau / Pont-henri




6.19 Mae grŵp o aneddiadau sydd â chysylltiad agos, sef Pont-iets, Y Meinciau a Phont-henri wedi'u lleoli yng Nghwm Gwendraeth, yn union rhwng Caerfyrddin a Llanelli ac fe'u nodweddir gan weithgareddau di-wydiannol blaenorol a oedd yn ymwneud â chloddio am lo. Mae'n cynrychioli canolfan sefydledig â phoblog-aeth gref, sy'n cael ei chefnogi gan yr holl wasanaethau a chyfleusterau a ddisgwylir gan anheddiad o'r fath. Yn hyn o beth mae'n cynnwys darpariaeth adwerthu leol, ysgol gynradd, gofal iechyd, fferyllfa ac ati.

### Cymeriad

6.20 Nodweddir Pont-iets a'r Meinciau gan batrwm datblygu llinol sydd â Chwm Gwendraeth yn gefndir iddo, ac yn yr achos hwn mae gan dopograffeg yr anheddiad rôl allweddol sy'n estyn y pentref dros bellter o 2.5 milltir. Gellir dadlau bod gan elfen ddeheuol y pentref gysylltiadau gwell â Llanelli; fodd bynnag at ei gil-ydd mae'r mwyafrif o'r ffurf drefol yn gorwedd yn rhan ogleddol y cwm gyda chysylltiadau gwell â Chaer-fyrddin. Mae gan yr ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg ym Mhont-iets rôl allweddol yn ffabrig cymdeith-asol yr ardal hon yng Nghwm Gwendraeth.

6.21 Mae materion perygl llifogydd yn amlwg yng ngwaelod y cwm y mae'r anheddiad wedi'i ganoli arno.

6.22 O ran Pont-henri, mae'r pentref wedi'i leoli ar yr hen linell reilffordd a arferai gael ei defnyddio fel rhan o'r gweithgareddau glofaol. Mae rhan o ardal ogleddol Pont-henri wedi'i lleoli o fewn parthau perygl llifogydd. Mae gan Bont-henri gysylltiadau â Phont-iets a Phontyberem, ac mae gan y ddau anheddiad hwn rôl fel canolfan gwasanaethau lleol ar gyfer darparu bwyd a gofal iechyd yn lleol.

### Darpariaeth Adwerthu

6.23 Mae gan Bont-iets rôl hollbwysig o ran darpariaeth adwerthu gyda siop fwyd a gorsaf betrol leol sy'n gwasanaethu anghenion y gymuned leol. Darperir darpariaeth fanwerthu ar raddfa fawr yng Nghaerfyrddin neu Lanelli.

### Darpariaeth o ran Tai

6.24 Dim ond twf ar raddfa fach mewn tai a welwyd yn y tri anheddiad, gyda methiant i gyflawni niferoedd preswyl mwy o bosibl i'w briodoli i agosrwydd y datblygiad tai ar raddfa fawr yn Ffos Las, Carwe - sydd wedi gorlenwi'r farchnad dai.

6.25 O fewn y CDLl diwygiedig, mae'r ffigur dyrannu tai wedi ystyried nifer y tai yn y tri anheddiad, ac felly mae wedi'i leihau'n sylweddol, gyda safleoedd yn cael eu gwaredu o'r rhestr dyrannu tai, a chyflwyno safleoedd newydd sydd â chaniatâd cynllunio.

6.26 Nid yw adeiladwyr tai cenedlaethol yn datblygu yn yr ardal hon, ond mae adeiladwyr bach a chanolig wedi bod yn mynd ati i ddatblygu safleoedd.


## Darpariaeth Cyflogaeth

6.27 Mae gan yr anheddiad gyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fach; fodd bynnag, nid oes unrhyw ddyraniadau cyflogaeth yn y pentrefi. Mae’r anheddiad yn dibynnu ar yr ardaloedd twf ar gyfer y mwyafrif o’i ofynion cyflogaeth.
mwyafrif o’i ofynion cyflogaeth.

## Casgliad

6.28 Mae ei ddyraniad fel canolfan gwasanaethau lleol o fewn y clwstwr hwn yn un pwysig, o ystyried ei gysylltiadau agos â Chaerfyrddin a Llanelli. Fel a nodwyd uchod, mae lefel y twf yn yr aneddiadau wedi bod yn gyfyngedig i gyfleoedd ar raddfa fach gyda’r safleoedd mwy a ddyrannwyd yn peidio â chael eu cyflwyno.

## Canolfan Wasanaeth - Glanyfferi




### Cymeriad

6.29 Mae Glanyfferi yn anheddiad llinellol ar aber Bae Caerfyrddin ac Afon Tywi. Ar hyn o bryd, dyrennir yr anheddiad fel Canolfan Gwasanaethau Lleol o fewn y CDLl mabwysiedig, oherwydd ei leoliad ar y brif reilffordd i Orllewin Cymru.

6.30 Er bod gan yr anheddiad wasanaethau a chyfleusterau hunangynhaliol, mae'n dibynnu i raddau ar Gydweli am ddarpariaeth cyflogaeth / siopa bwyd wythnosol, ond yn enwedig Caerfyrddin fel yr anheddiad uchaf yn yr hierarchaeth. Wrth ystyried yr hierarchaeth aneddiadau a'r dull clwstwr a ddefnyddir gyfer y CDLl diwygiedig, ystyrir y byddai Glanyfferi o fewn clwstwr Caerfyrddin, o gofio bod y rhwydwaith ffyrdd yn agosach at Gaerfyrddin.

6.31 Mae llifogydd llanw yn cyfyngu ar yr anheddiad, oherwydd ei leoliad ar yr aber, ond hefyd oherwydd cyfyngiadau topograffig ar hyd ei ymyl dwyreiniol.

### Darpariaeth Adwerthu

6.32 Mae siop gyfleustra leol yng nghanol Glanyfferi, ynghyd â siopau sy'n ymwneud â thwristiaeth.

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.33 Mae'r anheddiad yn rhoi darpariaeth leol sy'n cael ei chefnogi gan ddatblygwyr bach a chanolig.

6.34 Yn y CDLl mabwysiedig, dyrannwyd dau safle yn y pentref; mae un wedi'i gwblhau ac mae'r llall yn cael ei adeiladu fel lleiniau hunan-adeiladu, a datblygiadau fflatiau.

6.35 Cefnogir y ddarpariaeth tai gan y golygfeydd dros yr aber i Lansteffan.

6.36 O fewn y CDLl diwygiedig, nodir dyraniad newydd yn ogystal â chwblhau'r dyraniad presennol i fodloni'r ffigur gofyniad tai. Cynyddwyd y terfynau datblygu hefyd er mwyn caniatáu i ddatblygiadau ar raddfa fach ddigwydd.

### Darpariaeth Cyflogaeth

6.37 Nid oes gan Lanyfferi unrhyw ddyraniadau cyflogaeth presennol, ac mae'n dibynnu ar Gaerfyrddin ar gyfer y rhan fwyaf o'i ddarpariaeth cyflogaeth. I raddau llai, byddai Llanelli hefyd yn cefnogi'r ddarpariaeth hon gan ei bod rhyw 10 milltir i ffwrdd.

### Casgliad

6.38 O ystyried y dadansoddiad uchod, yn sicr mae gan Lanyfferi ran briodol i'w chwarae o fewn yr hierarchaeth aneddiadau. Cynigia ddarpariaeth leol ar gyfer nifer cymharol fach o bobl, gyda chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i aneddiadau eraill drwy wasanaethau trên

## Clwstwr 2 - Llanelli ac Ardal De Gwendraeth

6.39 Mae'r clwstwr hwn ar hyd morlin Llanelli yn cadw ffocws datblygiadol cryf, ac mae ei botensial adfywio'n cael ei gydnabod yn y Strategaeth Trawsnewidiadau a Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

6.40 Mae yn ne-ddwyrain y sir, sy'n ardal drefol ei natur yn bennaf. Mae ganddo hygyrchedd da ar hyd ffyrdd (gan gynnwys yr M4) a rheilffyrdd, ac mae ei agosrwydd at Abertawe'n sicrhau bod ei bwysigrwydd strategol i Sir Gaerfyrddin yn cael ei adlewyrchu yn ei ddyheadau datblygu.

6.41 Atgyfnerthir sefyllfa Llanelli fel ardal twf Cenedlaethol fel rhan o ranbarth y De Orllewin yn Cymru'r Dyfodol ac mae ei ffocws tuag at dwf economaidd a thai strategol.

6.42 Yn Llanelli yn bennaf mae'r boblogaeth yn y gornel dde-ddwyreiniol hon o Sir Gaerfyrddin, ac mae'r dref a'r aneddiadau o amgylch yr ardal dwf yn cefnogi darparu tai a swyddi newydd; Mae'r ardal yn gyfrannwr cryf o ran adwerthu, tra nodir ei photensial o ran twristiaeth gan gynnwys Cae Rasio Ffos Las yn Nhrimsaran a Llwybr Arfordirol y Mileniwm a Pharc Gwledig Pen-bre ar hyd ei harfordir deheuol.

6.43 Er bod y sector gweithgynhyrchu traddodiadol yn parhau i fod ag enw da, mae'r swyddi cyferbyniol a gynigir yn y Bynea, Dafen a Llynnoedd Delta yn adlewyrchu'r modd y mae sectorau'r ardal yn ehangu.

6.44 O ran y ddarpariaeth tai o fewn y CDLl diwygiedig, mae'r clwstwr hwn yn bwriadu datblygu 2,840 o unedau neu 41.62% o'r dyraniad tai cyffredinol a'r ffigur ymrwymiad gofynnol, a nodir ym Mholisi SP4. Y clwstwr hwn yw'r clwstwr mwyaf o fewn yr hierarchaeth aneddiadau i ddarparu ar gyfer datblygiadau newydd.

| | | |
|---|---|---|
| **Prif Ganolfan** | Llanelli | |
| **Canolfan Wasanaeth** | Porth Tywyn<br>Fforest/Yr Hendy<br>Llangennech | Pen-bre<br>Trimsaran/Carwe<br>Cydweli |
| **Pentrefi Cynaliadwy** | Mynyddygarreg<br>Pump-hewl/Horeb | Llan-saint / Broadway |
| **Pentrefi Gwledig** | Cynheidre<br>Penymynydd | Pedair-hewl |




6.45 O ran y data a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, mae'r clwstwr hwn yn rhan o Ardal Gweithredu Tai Fforddiadwy Llanelli, sy'n nodi'r angen mwyaf o ran tai yn Sir Gaerfyrddin (ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy). Mae'r angen hwn yn bennaf o fewn yr ardaloedd mwy trefol lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn byw.

6.46 O ran yr aneddiadau llai o faint o fewn y clwstwr, mae eu niferoedd yn gymharol fach, gan fod yr ardal yn un drefol yn bennaf. Fodd bynnag, maent yn cynnig cyfleoedd ar raddfa fach i ddatblygu

| Clwstwr | Haen | Ffigwr HOM1 | Ffigwr Dyrannu Tai | Ymrwymiad (Unedau Adeiledig a safleoedd gyda chaniatad cynllunio) |
|---|---|---|---|---|
| **Clwstwr 2** | Haen 1 | 1516 | 452 | 1064 |
| | Haen 2 | 1250 | 134 | 1116 |
| | Haen 3 | 74 | 33 | 41 |
| | **Cyfanswm** | **2840** | **619** | **2221** |

## Prif Ganolfan - Llanelli




6.47 Mae Llanelli wedi'i lleoli'n strategol yn agos at goridor trafnidiaeth yr M4 yn ogystal â bod ar y cyswllt rheilffordd rhwng Llundain ac Abergwaun. Mae Llanelli'n ganolfan arwyddocaol ar leoliad arfordirol sydd wedi'i lleoli yn ne-ddwyrain y Sir. Yn draddodiadol roedd y dref yn ganolfan diwydiant trwm a gweithgynhyrchu, ac mae'n parhau i fod yn ganolfan weinyddu a chyflogaeth bwysig. Mae ei lleoliad cynaliadwy yn cadarnhau ei haddasrwydd i dderbyn cyfradd uchel o dwf dros gyfnod y cynllun.

6.48 Yn unol â Cymru'r Dyfodol, ystyrir bod Llanelli yn ardal gynradd ar gyfer twf o fewn Rhanbarth y De Orllewin

6.49 Mae Llanelli yn cyflawni rôl allweddol o ran Bargen Ddinesig Bae Abertawe gyda'r darpar Bentref Llesiant a Gwyddor Bywyd yn ddatblygiad sylweddol i'r rhanbarth ac yn cynnig buddsoddiad mawr iawn a chyfleoedd deilliedig.

6.50 Mae cyfran uchel o boblogaeth y sir wedi'i chydgrynhoi yn Llanelli a'r cyffiniau, ac mae ardaloedd Cyngor Tref Llanelli a Chyngor Gwledig Llanelli'n cynnwys ychydig dros 20% o boblogaeth y Sir.

6.51 Mae'r cyfyngiadau datblygu presennol a brofir yn Llanelli yn destun trafodaethau ac ymchwiliadau parhaus. Caiff rhan ddeheuol y dref ei llesteirio gan y parth lle ceir perygl o lifogydd, gyda chymysgedd o barthau llifogydd C1 ac C2.

6.52 O safbwynt yr ystyriaethau seilwaith sy'n effeithio ar ardal Llanelli, mae ymwybyddiaeth wedi bod ers tro o'r materion sy'n codi gyda golwg ar drefniannau gwastraff a dŵr wyneb yr ardal. Mae Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd yn rhan o rwydwaith o ardaloedd ledled Ewrop - a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar yr Undeb Ewropeaidd er mwyn diogelu cynefinoedd a rhywogaethau sydd o bwys ac sydd dan fygythiad ar raddfa Ewropeaidd.

### Darpariaeth Adwerthu

6.53 Mae gan Lanelli (a'i chanol tref) rôl adwerthu sefydledig sydd wedi cael ei hategu dros y blynyddoedd diwethaf gan barciau adwerthu y tu allan i'r dref. Er gwaethaf y cynnig adwerthu mewn datblygiadau y tu allan i'r dref, mae'r dref yn cadw craidd adwerthu sy'n cynnwys cymysgedd o siopau cenedlaethol a lleol. Gwelwyd adfywio sylweddol mewn rhan o ganol y dref yn sgil datblygiad Porth y Dwyrain, sy'n cynnwys sinema'r Odeon ac sydd hefyd wedi ehangu arlwy canol y dref i gynnwys hamdden masnachol .

6.54 Bu buddsoddiadau parhaus yng nghanol y dref o ran adnewyddu eiddo. Mae hyn wedi dangos llwyddiant nodedig wrth adfywio ardaloedd yng nghanol y dref a gwneud defnydd effeithiol o eiddo unwaith eto.

6.55 Mae'r arlwy manwerthu y tu allan i'r dref ym Mharc Trostre a Pharc Pemberton yn cynnwys cymysgedd o siopau nwyddau cymharol, swmpus a chyfleustra, gan gynnwys siopau cludfwyd cyflym ac archfarchnadoedd mawr Tesco a Morrisons.

## Darpariaeth o ran Twf Tai

6.56 Mae gan Lanelli hanes llwyddiannus o gyflawni ei thwf tai gydag 17 o'r dyraniadau tai yn Llanelli (gan gynnwys Llangennech) wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd bod nifer o ddyraniadau mwy heb gael eu datblygu yn ardal Llanelli, yn enwedig yng nghyffiniau porth y dwyrain. Er bod y safleoedd hyn yn gwneud cyfraniad mawr at y ffigwr tai ar y cyfan ar gyfer Llanelli, mae gan nifer o'r safleoedd hyn ganiatadau cynllunio dilys.

6.57 O fewn y CDLl diwygiedig, bydd Llanelli yn parhau i ddarparu'r raddfa fwyaf o ddatblygiad o fewn y sir. Mae gan adeiladwyr tai cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ddatblygiadau o fewn y dref a'r cymunedau cyfagos sy'n darparu cymysgedd o fathau o dai.

## Darpariaeth Cyflogaeth

6.58 Mae Llanelli'n cynnig ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth gan gynnwys cyflogaeth yn y sector gweithgynhyrchu, gwasanaethau ac adwerthu. Mae Llanelli'n cefnogi'r llafurlu o fewn yr ardal, ac mae ei safle ar yr M4 yn arwain at gymudo allan o'r Sir i gyfeiriad Abertawe a'r tu hwnt.

6.59 O ran tir cyflogaeth Dosbarth Defnydd B traddodiadol, mae dros 32 hectar o dir wedi'i ddyrannu at ddibenion o'r fath yn y CDLl cyfredol. Ochr yn ochr â hyn ceir y swm helaeth o dir cyflogaeth presennol sy'n gorwedd yn Llanelli, sy'n gyfanswm o 216 ha (gan gynnwys Llangennech), sy'n parhau i ateb diben pwysig trwy drosiant neu newid defnydd busnesau presennol ac ailddatblygu safleoedd blaenorol neu segur.


6.60 Yn fwy diweddar mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi dynodi bod un o dri phrosiect newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd – yn dod i'r Safle Strategol yn Llynnoedd Delta yn Llanelli.

## Casgliad

6.61 Mae natur gynaliadwy Llanelli a'i chapasiti am dwf yn tanlinellu pwysigrwydd y dref a bydd hyn yn sicrhau y bydd ei rôl fel canolfan ar gyfer swyddi, adwerthu, tai, iechyd a darpariaeth hamdden yn parhau. Gan hynny, bydd ei dynodiad fel Prif Ganolfan yn golygu mai dyma ble y gwelir y mwyafrif o ddatblygiadau newydd yn y clwstwr hwn. Trwy ddynodi Llanelli fel prif ganolfan y clwstwr, bydd yn cefnogi'r aneddiadau o'i hamgylch ar gyfer eu hanghenion cymdeithasol ac economaidd.

6.62 Cydnabyddir y dylai'r twf hwn gael ei gynllunio mewn modd sy'n adlewyrchu ac yn cydnabod rhai o'r heriau presennol, yn anad dim y rhai sy'n ymwneud â pherygl llifogydd a'r cyfyngiadau amgylcheddol.

6.63 Mae cyfleoedd yn y dyfodol gan gynnwys adfywio canol y dref a'r ardal arfordirol yn hybu ac yn sbarduno gwelliannau economaidd-gymdeithasol. Bydd hefyd yn gwella hygyrchedd cartrefi, gwasanaethau a chyflogaeth ledled De- ddwyrain Sir Gaerfyrddin a'r tu hwnt




## Canolfan Wasanaeth - Porth Tywyn a Phen-bre

### Cymeriad

6.64 Mae Porth Tywyn a Phen-bre yn ganolfan boblogaeth fawr yng nghyd-destun canolfannau gwasanaethau presennol yn Sir Gaerfyrddin gyfan. Maent mewn lleoliad pwysig ar y glannau ac yn cynnig nifer o wasanaethau, ond sy'n amlwg yn llai na'r hyn a gynigir gan y Prif Ganolfannau. Mae Porth Tywyn a Phen-bre yn darparu cyfle am dwf, yn enwedig o ystyried eu hagosrwydd at Lanelli. Bydd llawer o'r datblygu'n digwydd yng nghyffiniau Harbwr Porth Tywyn, sydd wedi cael ei adfywio'n rhannol drwy gynnig twristiaeth/hamdden, ynghyd â chysylltiadau â Pharc Arfordirol y Mileniwm a Pharc Gwledig Pen-bre. Mae gan yr ardal amgylchedd naturiol eithriadol a chyfeirir at y ffaith bod Safle Morol Ewropeaidd Bae a Morydau Caerfyrddin yn agos.

### Darpariaeth Adwerthu

6.65 Mae ffin canol tref Porth Tywyn yn darparu siopau adwerthu lleol sy'n cynnwys cymysgedd o siopau cyfleustra ac adwerthwyr cymharol. Caiff canol y dref, y mae Heol yr Orsaf yn ffin iddo, ei rannu gan y llinell reilffordd.

6.66 Ym mhentref Pen-bre mae siop leol a nifer o ddelwriaethau ceir.

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.67 Mae'r aneddiadau yn cyflawni rôl bwysig yn yr ardal trwy gefnogi Llanelli a thrwy ychwanegu at y dref honno, ac mae'r dosbarthiad yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth a roddir i'r ganolfan gyfagos fel canolbwynt y twf.

6.68 O fewn y CDLl diwygiedig, mae llawer o'r safleoedd a ddiffiniwyd gynt yn hap-safleoedd yn cael eu dwyn i mewn i'r elfennau dyraniad ac ymrwymiad tai o gyflenwad tai. Mae'r CDLl Diwygiedig yn darparu pum dyraniad rhwng Porth Tywyn a Phen-bre. O'r tri yn Borth Tywyn, mae un safle wedi ei gwblhau (Glanmor Terrace, 32 anhedd), mae bron i un safle bron wedi ei gwblhau (Fferm Gwdig, 105 anhedd) ac mae gan y safle arall yn yr harbwr (364 anhedd) ganiatâd amlinellol. Mae Porth Tywyn yn lleoliad poblogaidd i gymdeithasau tai a byddant yn parhau i gefnogi datblygiadau tai o fewn y dref.

6.69 Mae gan Ben-bre ddau safle, gydag un cyflawn (Garreglwyd—14 anhedd), ac mae gan Persimmon ganiatâd cynllunio ar safle 100 o anheddau. (Awel y Mynydd)


## Darpariaeth Cyflogaeth

6.70 O ran y defnyddiau cyflogaeth Dosbarth B traddodiadol, mae Parc Diwydiannol Dyfatty (dros 3 ha mewn maint) yn cefnogi'r ardal o ran darpariaeth cyflogaeth newydd yn y CDLI mabwysiedig cyfredol. Ar y cyd â hyn ceir y swm helaeth o dir cyflogaeth sy'n gorwedd o fewn y dref, sy'n gyfanswm o bron i 11 ha, sy'n parhau i ateb diben pwysig o safbwynt cyflogaeth.

## Casgliad

6.71 O ystyried y dadansoddiad uchod, mae Porth Tywyn a Phen-bre yn aneddiadau hunangynhaliol gyda'r holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i'w graddfa. Yn yr ystyr hwn, mae'n chwarae rhan hanfodol fel canolfan wasanaeth yn yr hierarchaeth aneddiadau, gan edrych i Lanelli am gyfleoedd ar raddfa fwy.

## Canolfan Wasanaeth - Yr Hendy / Fforest




### Cymeriad

6.72 Mae safle'r Hendy a Fforest o fewn y fframwaith aneddiadau'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth sy'n cefnogi Llanelli i raddau helaeth ac sy'n deillio o'u lleoliad ar gyffordd yr M4. Mae hyn yn cynnig cyfle i dderbyn lefel o dwf sy'n debyg i anheddiad sydd wedi'i leoli o fewn de ddwyrain y Sir sy'n drefol yn bennaf.

6.73 Nad yw Hendy yn cael ei grybwyll yng Nghymru'r Dyfodol, mae'n rhan o ardal Twf Cenedlaethol ac mae lefel y twf a ddosbarthwyd i'r pentref yn y CDLl mabwysiedig (Preswyl - 219 anheddiad) yn tystio i'w leoliad ger yr M4, ei swyddogaeth ar lefel Sirol, a'i rộl gefnogol i Lanelli ei hun. Mae'r anheddiad yn arddangos cymeriad Canolfan Wasanaeth gan ei fod yn darparu rôl leol bwysig, ond mae'n edrych tuag at Lanelli, Pontarddulais ac Abertawe gerllaw ar gyfer darpariaethau lefel uwch.

### Darpariaeth Adwerthu

6.74 Er bod yr Hendy'n cynnig siop leol a darpariaeth siopau bach megis y fferyllfa, mae siop Tesco a darpariaethau adwerthu eraill yng nghanol y dref ym Mhontarddulais yn cynnig cyfleoedd adwerthu. Mae'r Hendy yn dibynnu ar Lanelli a Throstre ar gyfer siopau adwerthu cenedlaethol mwy a darpariaeth nwyddau swmpus hefyd.

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.75 Mae'r anheddiad wedi perfformio'n gymharol dda o safbwynt darparu tai lle mae'r farchnad dai yn fywiog gydag adeiladwyr tai cenedlaethol yn bresennol a'r llog wedi'i nodi ar y rhan fwyaf o'r safleoedd a ddyrannwyd.

6.76 Gan fod yr Hendy a Fforest yn ffinio â Phontarddulais bron, mae Dinas a Sir Abertawe wedi nodi datblygiadau tai ar raddfa fawr ar gyfer Pontarddulais ac mae ystyriaethau trawsffiniol ar niferoedd tai yn cael eu hystyried fel rhan o'r CDLl diwygiedig.

### Darpariaeth Cyflogaeth

6.77 Nid oes gan yr Hendy unrhyw dir penodol wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflogaeth arfaethedig yn y cynllun datblygu lleol presennol a fabwysiadwyd, ond mae gan yr anheddiad ystad ddiwydiannol 4 hectar sydd ag unedau ar gyfer nifer o fusnesau bach ac sydd, drwy hynny, yn darparu gwasanaeth lleol pwysig.


6.78 Ar ben hynny, mae'r Hendy'n elwa o'i leoliad strategol ar bwys yr M4 ac o'i agosrwydd at y gwasanaethau a'r amwynderau a ddarperir gan Lanelli.

## Casgliad

6.79 O ystyried y dadansoddiad uchod, mae'r Hendy a Fforest yn bentrefi hunangynhaliol gyda'r holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i'w graddfa'n agos iawn atynt.

6.80 Cynrychiolir twf tai yr Hendy a Fforest yn y CDLl diwygiedig gan bum dyraniad ac iddynt ddarpariaeth ddangosol gyfunol o 119 o aneddiadau. Mae gostyngiad yn nif-eroedd y tai yn adlewyrchu ei leoliad yng nghyd-destun Pontarddulais a goblygiadau ei dwf.

## Canolfan Wasanaeth - Llangennech




### Cymeriad

6.81 Mae safle Llangennech o fewn y fframwaith aneddiadau'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth sy'n cefnogi Llanelli i raddau helaeth ac sy'n deillio o'i leoliad ar gyffordd yr M4. Dylid nodi bod yr anheddiad ar wahân i Lanelli, ond bod cysylltiadau cryf rhwng y pentref a'r dref. Mae hyn yn cynnig cyfle i dderbyn lefel o dwf sy'n debyg i anheddiad sydd wedi'i leoli o fewn de ddwyrain y Sir sy'n drefol yn bennaf. Nad yw Llangennech yn cael ei grybwyll yng Nghymru'r Dyfodol ond mae'n rhan o ardal Twf Cenedlaethol. Mae'r anheddiad yn arddangos cymeriad Canolfan Wasanaeth gan ei fod yn darparu rôl leol bwysig, ond mae'n edrych tuag at Lanelli ac Abertawe gerllaw ar gyfer darpariaethau lefel uwch.

### Darpariaeth Adwerthu

6.82 Mae Llangennech yn cynnig darpariaethau siopau bwyd lleol sy'n diwallu anghenion yr anheddiad. Fodd bynnag, mae'n dibynnu ar Lanelli ar gyfer nwyddau cymharol, cyfleustra a swmpus mwy.

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.83 Mae cyfleoedd datblygu tai yn Llangennech wedi'u cyfyngu i ddatblygiadau ar raddfa fach, ond mae'r dyraniadau mawr yn y Bryn (sydd o fewn ward Cyngor Cymuned Llangennech) wedi perfformio'n weddol dda o ran darparu tai lle mae'r farchnad dai yn fywiog, gydag adeiladwyr tai cenedlaethol ar y safle ar hyn o bryd.

6.84 Yn y CDLl diwygiedig, mae gwaith ar y gweill o ran llawer o ddyraniadau tai Llangennech, ac mae gwaith yn cael ei wneud i wella'r gwaith trin dŵr gwastraff.

### Darpariaeth Cyflogaeth


6.85 Nid oes gan Langennech unrhyw dir penodol sydd wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflogaeth arfaethedig yn y CDLl mabwysiedig cyfredol; fodd bynnag mae gan yr anheddiad ddwy ardal ddiwydiannol bresennol, gan gynnwys yr ystâd helaeth yn Heol Trosserch (dros 20 ha) sy'n cynnwys nifer fawr o fusnesau, gan felly roi darpariaeth bwysig o ran cyflogaeth.

6.86 Ar ben hynny, mae Llangennech yn elwa o'i leoliad strategol ar bwys yr M4 ac o'i agosrwydd at y gwasanaethau a'r amwynderau a ddarperir gan Lanelli.

## Casgliad

6.87 O ystyried y dadansoddiad uchod, mae Llangennech yn bentref hunangynhaliol gyda'r holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i'w raddfa'n agos iawn ato. Yn hyn o beth, mae'n cyflawni rôl hollbwysig fel canolfan wasanaethau o fewn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae ei leoliad ar goridor yr M4 yn ei wneud yn anheddiad deniadol i gym-udwyr.

6.88 Rhagwelir y bydd potensial datblygu Llangennech yn cael ei wireddu o fewn y CDLl diwygiedig.




## Canolfan Wasanaeth - Trimsaran/Carwe

### Cymeriad

6.89 Er nad yw Trimsaran / Carwe yn cael eu crybwyll yng Nghymru’r Dyfodoll maent wedi'u lleoli o fewn pellter rhesymol i Lanelli a'i ddynodi'n Ardal Twf Cenedlaethol. Lleolir yr anheddiad ym mhen isaf Cwm Gwendraeth yn gymharol agos i Lanelli, Cydweli a Phorth Tywyn, a nodwedd arno yw'r hen weithgareddau diwydiannol yn ymwneud â mwyngloddio. Mae'n cynrychioli canolfan sefydledig â phoblogaeth gref, sy'n cael ei chefnogi gan yr holl wasanaethau a chyfleusterau a ddisgwylir gan anheddiad o'r fath. Mae’r rhain yn cynnwys darpariaethau addysg, canolfan hamdden, fferyllfa a swyddfa bost leol, ymhlith eraill.

6.90 Mae'r anheddiad yn chwarae rôl bwysig fel ardal allweddol Gymraeg ei hiaith yng nghadarnleoedd ieithyddol Cwm Gwendraeth.

6.91 Mae Carwe wedi newid yn sylweddol yn ystod y 15 mlynedd ddiwethaf gydag adfywio gwaith glo brig Ffos Las i greu cae rasio yn ddatblygiad amlwg. Mae hwn yn gae rasio a gydnabyddir yn genedlaethol sydd hefyd yn lleoliad digwyddiadau a lletygarwch sy'n cynnal cerddorion a grwpiau rhyngwladol adnabyddus. Daw mewnlifiad enfawr o bobl yma ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.

6.92 Er mwyn cefnogi Ffos Las, mae Persimmon wedi datblygu nifer o gamau tai, tra bod adeiladwr tai cenedlaethol arall wedi ymgymryd â thir i ddatblygu eu cam eu hunain. Mae'r datblygiadau hyn wedi cynyddu'r boblogaeth leol yn sylweddol, ac yn sylfaenol wedi newid y pentref o gymuned gynaliadwy o fewn y CDLl mabwysiedig yn ganolfan wasanaeth fel yr ystyrir o fewn y CDLl Diwygiedig

6.93 O ystyried y cysylltiadau rhwng Carwe a Thrimsaran, ac effeithiau'r farchnad dai ar bob anheddiad, mae wedi'i farnu'n beth doeth cyfuno'r ddau bentref hyn yn un ganolfan wasanaeth o fewn y CDLl diwygiedig.

### Darpariaeth Adwerthu

6.94 Mae gan yr aneddiadau siop leol ar gyfer nwyddau cyfleustra, ac mae Cydweli a Llanelli'n agos i fodlon gofynion adwerthu mwy y trigolion. Byddai Caerfyrddin hefyd yn gyrchfan ar gyfer darpariaethau adwerthu.

## Darpariaeth o ran Twf Tai

6.95 Mae'n ganolfan wasanaeth o fewn y CDLl diwygiedig o achos ei maint a lleoliad yng nghyd-destun Llanelli a'r gymuned leol ehangach.

6.96 Prin fu'r twf o fewn Trimsaran, ac adlewyrchir hyn yn y newidiadau yn y CDLl diwygiedig lle mae'r rhan fwyaf o ddyraniadau'r CDLl mabwysiedig wedi eu dad-ddyrannu. Yn natblygiad Ffos Las yng Ngharwe y mae'r rhan fwyaf o ddyraniad yr anheddiad, gyda 233 o breswylfeydd o'r 283 o aneddiadau a ddyrennir yn y Cynllun presennol.

6.97 Hefyd mae digon o gyfleoedd datblygu ar raddfa fach yn Nhrimsaran a Charwe, y byddai datblygwyr canolig eu maint a chwmnïau lleol yn manteisio arnynt.

## Darpariaeth Cyflogaeth

6.98 Mae gan yr aneddiadau gyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fach; fodd bynnag, nid oes unrhyw ddyraniadau cyflogaeth arfaethedig yn y pentrefi.

## Casgliad


6.99 Mae natur, dosbarthiad, a graddfa'r datblygiad a ddyrennir i'r aneddiadau yr un peth â chanolfannau gwasanaeth tebyg yn y CDLl Diwygiedig. Er bod darpariaeth ar raddfa fawr yn cael ei dosbarthu i ddau ddyraniad yn unig o fewn y pentrefi, mae digon o gyfleoedd ar raddfa fach.

## Canolfan Wasanaeth - Cydweli

6.100 Caiff Cydweli ei nodi fel canolfan gwasanaethau bwysig yn ne-ddwyrain trefol Sir Gaerfyrddin ac wrth y porth deheuol i Gwm Gwendraeth. Lleolir y dref yn agos i brif gynllun y Glannau yng Nghynllun Gofodol Cymru a chaiff ei chydnabod fel anheddiad grŵp allweddol yng Nghynllun Gofodol Cymru Bae Abertawe: Y Glannau a'r Cymoedd Gorllewinol.

6.101 Mae Cydweli yr un pellter o Lanelli a Chaerfyrddin ar hyd yr A484, ac mae'n lle poblogaidd ar gyfer twf, gyda sylfaen boblogaeth gref. Lleolir yr anheddiad ar y coridor trafnidiaeth gynaliadwy ac ar y brif reilffordd rhwng Abergwaun a Llundain, gyda gorsaf o fewn 5 munud ar droed o ganol y dref.

6.102 Mae gan Gydweli ddarpariaeth leol o ran cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys ysgol gynradd, gofal iechyd, siopau cludfwyd a thafarndai a.y.b. Mae twristiaeth yn chwarae rhan bwysig yn y dref, gyda'r castell yn amlwg yn y canol, a'i furiau'n creu cymeriad canoloesol o fewn yr ardaloedd cadwraeth. Mae'r dref hefyd yn agos at Barc Gwledig Pen-bre a'i gyfleoedd twristiaeth, a dim ond ychydig filltiroedd i ffwrdd y mae Parc Carafanau Bae Caerfyrddin.




### Darpariaeth Adwerthu

6.103 Mae gan yr anheddiad ddarpariaeth adwerthu leol sy'n cynnwys siop fwyd leol ac adwerthwyr lleol eraill.

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.104 Mae'r CDLl mabwysiedig yn cydnabod pwysigrwydd Cydweli fel canolfan wasanaethau ac adlewyrchir hyn yn nifer y dyraniadau tai yn y dref. At ei gilydd mae gan Gydweli 10 o ddyraniadau tai, sy'n amrywio yn eu maint o 6 uned i 95 uned, ac mae cyfleoedd ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach. Mae gan y CDLl mabwysiedig ffigur dyrannu o 301 o unedau.

6.105 Yn y CDLl diwygiedig, mae'r ffigur dyraniad tai wedi ystyried maint y datblygiad tai yng Nghydweli, ac felly wedi cael ei leihau'n sylweddol, gyda'r safleoedd yn cael eu dileu o'r rhestr dyrannu tai, a chyflwyno safleoedd newydd sydd â chaniatâd cynllunio. Mae'r ffigur dyraniad tai wedi cael ei leihau i 115 o unedau.

6.106 Mae perygl llifogydd a threftadaeth hanesyddol adeiledig yr anheddiad yn ffactorau pwysig o ran meithrin dealltwriaeth o allu'r anheddiad i dyfu.

## Darpariaeth Cyflogaeth

6.107 Er nad oes gan yr anheddiad ddyraniadau cyflogaeth arfaethedig, mae’r anheddiad yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth amrywiol, a hynny ym maes twristiaeth, y diwydiant bwyd anifeiliaid anwes a delwriaethau ceir.

## Casgliad

6.108 Mae Cydweli’n dref hunangynhaliol gyda’r holl wasanaethau a chyfleusterau sy’n briodol i’w graddfa. O ystyried ei lleoliad, yn union yn y canol rhwng Llanelli a Chaerfyrddin, gallai’r aneddiadau berthyn i’r naill glwstwr neu’r llall. At ddibenion cydnabod dosbarthiad y cyflenwad tai, a pheidio â gorgymhlethu'r manylion o fewn y ffigur cyflenwad tai, bydd Cydweli yn rhan o Glwstwr 2.

6.109 Rhoddir ystyriaeth i'w rôl o ran cefnogi pentrefi eraill sy’n agos ati, gan gynnwys Mynyddygarreg, Llansaint, a Glanyfferi ymhlith eraill.

## Clwstwr 3 - Aman a Phen Uchaf Cwm Gwendraeth

6.110 Er bod yr ardal gymeriad hon yn drefol ac ôl-ddiwydiannol ei natur yn bennaf, caiff ei hamrywiaeth ei diffinio gan gyfres o aneddiadau cyd-gysylltiedig. Caiff tai a swyddi newydd eu hadeiladu'n bennaf ar hyd coridor yr A48, gyda Cross Hands ac aneddiadau cyfagos yn ffocws allweddol yn hyn o beth.  Mae Rhydaman yn chwarae rhan bwysig fel canolfan wasanaeth, gan ddarparu cyfleusterau adwerthu, cyflogaeth, addysg a hamdden lleol.

6.111 Caiff ardaloedd ôl-ddiwydiannol Dyffryn Aman a Phen Uchaf Cwm Gwendraeth eu gweld fel cadarnleoedd ieithyddol allweddol, ac maent yn gwneud cyfraniad allweddol tuag at ddiffinio'r ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'r aneddiadau hyn yn y Cymoedd yn cyflawni swyddogaeth fel canolfannau gwasanaethau lleol yn hytrach na bod yn ffocws ar gyfer datblygiadau newydd.


6.112 Mae tair haen uchaf y Clwstwr yn cael eu cefnogi gan nifer o aneddiadau gwledig bach, y maent i gyd yn gwneud cyfraniad pwysig i ddatblygiadau ar raddfa fach.

6.113 O ran y data a nodwyd o fewn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, mae'r clwstwr hwn yn rhan o Ardal Gweithredu Tai Fforddiadwy Rhydaman a Dyffryn Aman, sef y clwstwr ail fwyaf ar gyfer angen tai yn Sir Gaerfyrddin (ar gyfer y farchnad dai a thai fforddiadwy). Mae'r angen hwn yn bennaf yn yr ardaloedd mwy trefol lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn trigo.

6.114 Mae amgylchedd naturiol yr ardal yn cyfrannu at ei chymeriad hefyd, ac mae prosiect Caeau'r Mynydd Mawr yn elfen annatod o ran cyfryngu a chydbwyso galwadau croes.

| Clwstwr | Haen | Ffigwr HOM1 | Ffigwr Dyrannu Tai | Ymrwymiad (Unedau Adeiledig a safleoedd gyda chaniatad cynllunio) |
|---|---|---|---|---|
| **Clwstwr 3** | Haen 1 | 1119 | 397 | 722 |
| | Haen 2 | 62 | 23 | 39 |
| | Haen 3 | 86 | 21 | 65 |
| | **Cyfanswm** | **1267** | **441** | **826** |


<table>
<tr><td>Prif Ganolfan</td><td colspan="3">Rhydaman / Cross Hands (yn cynnwys Blaenau, Caerbryn, Castell y Rhingyll, Cefneithin, Cross Hands, Drefach, Gorslas, Llandybie, Penygroes, Saron, Y Tymbl, Ty-croes)</td></tr>
<tr><td>Canolfan Wasanaeth</td><td colspan="2">Brynaman<br>Glanaman/Y Garnant</td><td>Pontyberem/ Bancffosfelen</td></tr>
<tr><td>Pentrefi Cynaliadwy</td><td colspan="2">Carmel<br>Cwmgwili</td><td>Foelgastell<br>Ystradowen</td></tr>
<tr><td>Pentrefi Gwledig</td><td>Capel Seion<br>Cefn-bryn-brain<br>Derwydd<br>Dre-fach (Llandyfân)</td><td>Heol-ddu<br>Maes-y-bont<br>Milo<br>Mynyddcerrig<br>Pantyllyn</td><td>Pentregwenlais<br>Rhosaman<br>Stag and Pheasant<br>Temple Bar</td></tr>
</table>



## Prif Ganolfan - Rhydaman / Cross Hands

6.115 Mae Rhydaman a Cross Hands yn rhan o grŵp o gymunedau/aneddiadau rhyngberthynol a chysylltiedig. Ystyrir bod y rhain yn cyflawni rôl allweddol fel y prif ganolfannau mewn cyfres o aneddiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Brif Ganolfan ddynodedig. Yr aneddiadau eraill sy'n rhan o'r Brif Ganolfan yw:

- Y Betws
- Tŷ-croes
- Capel Hendre
- Saron
- Llandybïe
- Blaenau / Cae'r-bryn
- Pen-y-groes
- Castell y Rhingyll
- Gors-las
- Cefneithin
- Dre-fach
- Y Tymbl




6.116 Mae pob un o'r aneddiadau hyn yn gwneud cyfraniad tuag at gyflawni twf y Brif Ganolfan ac yn gronnol maent yn darparu canolfan bwysig ar gyfer tai a chyfleusterau cyflogaeth yn y Sir. Mae lleoliad y Brif Ganolfan ar goridor yr M4/A48 ac yng nghanolbwynt Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth yn atgyfnerthu ei phwysigrwydd a'r rôl strategol a gyflawnir ganddi o fewn y Sir a'r rhanbarth. Mae Rhydaman a Llandybie wedi'u lleoli ar Reilffordd Calon Cymru, gyda chysylltiadau posibl â'r rhwydwaith rheilffyrdd ehangach.

6.117 Caiff rôl amlwg ardal Rhydaman/Cross Hands ei chydnabod trwy Strategaeth Drawsnewid y Cyngor ac mae rhannau'n disgyn yn yr ardal dwf Cenedlaethol a osodwyd gan Cymru'r Dyfodol

### Cymeriad

6.118 Fel canolfan diwydiant trwm yn draddodiadol, mae'r ardal yn cynnig y posibiliadau o adfywio canol y ddwy dref, a hefyd y cymunedau cyfagos. Mae Cross Hands wedi tyfu'n sylweddol fel canolfan adwerthu a gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r bwriad i'w dynodi fel parth strategol yn pwysleisio ei phwysigrwydd.

6.119 Buddsoddwyd yn sylweddol yn seilwaith Cross Hands dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig trwy gyflawni Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a'r gwaith sydd yn darparu llwybr uniongyrchol i hwyluso'r gwaith parhaus o gyflawni Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands.

6.120 Yn ogystal, mae datblygiad sylweddol i'r gorllewin o'r A48 wedi gweld cymysgedd adwerthu newydd yn ychwanegol at godi 200 o aneddiadau

## Darpariaeth Adwerthu

6.121 Mae Rhydaman yn amlwg yn llai na chanolfannau adwerthu Caerfyrddin a Llanelli ond er hynny mae'n cyflawni swyddogaeth adwerthu bwysig o fewn y cyd-destun lleoliadol. Ategir hyn gan arlwy'r parc adwerthu sydd wedi'i ganoli ar Cross Hands.

6.122 Mae Rhydaman yn darparu cymysgedd cryf o siopau gwerthu nwyddau cymharol a chyfleustra trwy ei chanol tref traddodiadol a nifer o archfarchnadoedd. Yn ogystal â bod yn ganolfan adwerthu, mae gan Rydaman hefyd rôl fel canolfan fasnachol gyda chymysgedd o fusnesau a gwasanaethau'r stryd fawr wedi'u lleoli yno. Mae ganddi hefyd theatr, canolfan hamdden fawr a nifer o fariau, bwytai a chaffis.

6.123 Mae Cross Hands hefyd yn darparu cymysgedd cryf o siopau gwerthu nwyddau cymharol a chyfleustra. Mae Parc Manwerthu Cross Hands, a Pharc Gorllewin Cross Hands a ddatblygwyd yn ddiweddar, yn darparu warysau adwerthu mwy, tra bo sgwâr Cross Hands a'r unedau cyfagos sydd wedi'u lleoli ar hyd Heol Llandeilo yn cynnig cymysgedd iach o unedau llai. Mae gan Cross Hands rai cyfleusterau sydd wedi'u canoli ar gylchfan yr A48 hefyd, megis bwytai bwyd cyflym, gorsaf betrol a motel, sy'n cynnig gwasanaethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u lleoliad strategol ar y prif lwybr priffordd ledled y Sir. Mae gan nifer o'r aneddiadau eraill sy'n rhan o Brif Ganolfan Rhydaman / Cross Hands ddarpariaeth manwerthu nwyddau cyfleustra ar raddfa fach hefyd yn ogystal â chyfleusterau eraill megis tafarndai.

## Darpariaeth o ran Twf Tai

6.124 Mae datblygiad tai ledled yr ardal wedi bod yn gymysglyd gyda Cross Hands yn nodweddiadol yn profi'n fwy deniadol o ran y farchnad na Rhydaman. Gallai hyn fod yn adlewyrchiad o'i manteision gofodol a'i hagosrwydd at yr M4 / A48 a'i hygyrchedd mewn perthynas â'r rhain ond yn yr un modd gallai fod yn adlewyrchiad o natur a graddfa safleoedd a gynigir. Mae natur amrywiol y Brif Ganolfan hon yn benthyca'i hun i gymysgedd amrywiol o safleoedd sy'n adlewyrchu graddfa anheddiad penodol a'i thueddiad i gyflawni.

6.125 O fewn y CDLl Diwygiedig, mae Haen 1 o fewn y clwstwr hwn yn ceisio datblygu nifer sylweddol is o anheddau na'r hyn a nodwyd yn y CDLl mabwysiedig gyda 1,119 o anheddau'n cael eu symud ymlaen ar gymysgedd o safleoedd. O'r 1,119 annedd yma, mae 722 o'r rheiny â chaniatâd cynllunio yn adlewyrchu poblogrwydd yr ardaloedd hyn.

## Darpariaeth Cyflogaeth

6.126 Mae Rhydaman/Cross Hands yn cynnig ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth gan gynnwys cyflogaeth yn y sector gweithgynhyrchu, gwasanaethau ac adwerthu.

6.127 O ran tir cyflogaeth traddodiadol yn Nosbarth Defnydd B, er nad oes unrhyw safleoedd cyflogaeth arfaethedig wedi cael eu dyrannu yn Rhydaman, darperir dros 37 ha o dir yn Cross Hands a Chapel Hendre yn y CDLl mabwysiedig cyfredol. Ynghyd â hyn mae'r swm helaeth o dir cyflogaeth presennol sy'n gorwedd o fewn yr ardal dwf gyfan, sy'n cyfateb i dros 85 ha. Mae hyn yn parhau i fod yn bwysig drwy ddarparu swyddi a throsiant parhaus neu newid yn y defnydd o fusnesau sy'n bodoli eisoes a'r posibilrwydd o ail-ddatblygu safleoedd ac adeiladau blaenorol neu ddiangen.

6.128 Rhagwelir y bydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal dwf, yn rhoi hwb i'r economi leol, ac yn creu llawer o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf.


6.129 Wrth ystyried yr uchod, mae'r CDLl Diwygiedig yn ceisio neilltuo 28.118ha o dir cyflogaeth.

## Casgliad

6.130 Fel a nodir uchod, mae Cross Hands yn ardal sy'n ennyn diddordeb a mewnfuddsoddiadau sylweddol. Mae ganddi hefyd rôl arwyddocaol o ran darparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y Sir gyfan ac mae hefyd yn darparu'r cyfleoedd ar gyfer twf sylweddol yn y CDLl Diwygiedig. Mae ei lleoliad yn rhoi mynediad ardderchog at y rhwydwaith priffyrdd ledled y Sir a'r tu hwnt.

6.131 Mae gan Rydaman rôl barhaus fel prif ganolfan neu hwb cymunedau Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth, ac adlewyrchir hyn yn y CDLl Diwygiedig.

## Canolfan Wasanaeth - Brynaman




### Cymeriad

6.132 Wedi'i leoli yn Nyffryn Aman uchaf, mae Brynaman yn chwarae rôl bwysig yng nghyd-destun ardal a nodweddir gan ystod o aneddiadau ôl-ddiwydiannol. Mae'r anheddiad yn cynnig darpariaeth adwerthu leol ar ffurf siopau lleol megis siop gyffredinol, fferyllydd, swyddfa bost ac ati yn ogystal ag amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys gofal iechyd ac ysgol gynradd. Mae ei safle yn Nyffryn Aman uchaf yn ei roi ar goridor trafnidiaeth strategol gyda chysylltiadau da yn lleol a thu hwnt.

### Darpariaeth Adwerthu

6.133 Mae’r anheddiad yn cefnogi ac yn ategu Rhydaman, Glanaman a'r Garnant gan hefyd gysylltu ar draws y ffin â nifer o gymunedau dyffryn sydd â nodweddion tebyg ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae’r anheddiad hefyd yn cynnwys safleoedd cyflogaeth/diwydiannol presennol nodedig. Mae gan yr ystâd ddiwydiannol fach yn Heol Cwmgarw gymysgedd o ddefnyddiau adwerthu a chyflog-aeth draddodiadol.

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.134 Dros y blynyddoedd diwethaf dim ond un datblygiad tai ar raddfa fach sydd wedi bod yn yr anhedd-iad ac nid oes unrhyw ddyraniadau yn y CDLl wedi cael eu cyflwyno. Dim on 2 o’r 107 o breswylfeydd a ddyrannwyd yn y CDLl mabwysiedig cyfredol sydd wedi eu ddatblygu.

6.135 Gan fod lefel y twf yn yr anheddiad wedi'i chyfyngu i ddatblygiad ar raddfa lai, mae'r CDLl Diwygiedig yn adlewyrchu hyn drwy ddad-ddyrannu nifer o ddyraniadau. Mae hyn wedi peri i'r ffigur dyraniad tai leihau i 14 o breswylfeydd, gyda'r terfynau datblygu yn cael eu hymestyn i ganiatáu tai priodol ar raddfa fach.

### Darpariaeth Cyflogaeth

6.136 Er nad oes unrhyw safleoedd cyflogaeth newydd arfaethedig wedi cael eu dyrannu, mae’r anheddiad yn cynnwys dau safle cyflogaeth/diwydiannol presennol nodedig sy’n gyfanswm o fwy na 5 hectar mewn maint ac sy’n cefnogi ei rôl fel canolfan wasanaethau.


## Casgliad

6.137 Mae Brynaman yn darparu cyfle am dwf sy'n adlewyrchu ei safle a'r rôl wasanaeth gymharol sydd gan yr anheddiad yng nghymunedau'r dyffryn. Mae'r anheddiad hefyd yn cyfrannu at gefnogi statws Rhydaman fel ardal dwf ac mae ganddo rôl drawsffiniol. Mae’r anheddiad hefyd yn cynnwys safleoedd cyflogaeth ar raddfa fach.

6.138 Mae'r anheddiad mewn ardal Gymraeg draddodiadol ac yn cyfrannu at ystyriaethau ieithyddol ehangach Dyffryn Aman.

6.139 Er bod yr anheddiad yn arddangos yr holl swyddogaethau posibl sy’n angenrheidiol i gefnogi twf posibl, nid oes ganddo hanes o gyflawni ar lefel nodedig ac adlewyrchir hyn yn y niferoedd a ddyrennir yn y CDLl Diwygiedig.

## Canolfan Wasanaeth - Glanaman/Y Garnant




### Cymeriad

6.140 Yn Nyffryn Aman, mae gan Lanaman/ y Garnant rôl bwysig yng nghyd-destun ei leoliad a'i raddfa, ac mae'n nodweddu llawer o aneddleoedd tebyg y cymoedd ôl-ddiwydiannol. Mae'r anedd-iadau'n cefnogi ac yn ategu Rhydaman gan hefyd gysylltu dros y ffin â nifer o gymunedau tebyg yn y cymoedd - yn ogystal ag ystod o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys gofal iechyd ac ysgol gyn-radd.

6.141 Mae'r anheddiad yn cyfrannu at ystyriaethau ieithyddol ehangach Dyffryn Aman mewn ardal sydd yn draddodiadol wedi bod yn un Gymraeg ei hiaith.

### Darpariaeth Adwerthu

6.142 Mae'r aneddiadau'n cynnig darpariaeth gwasanaeth adwerthu lleol ar ffurf siopau lleol megis siop gyffredinol, fferyllydd, swyddfa bost ac ati (wedi'u gwasgaru dros yr ardal heb unrhyw graidd adnabyddadwy)

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.143 Gan fod nifer o eithriadau nodedig, yn ystod y blynyddoedd diwethaf dim ond hyn a hyn o dai a godwyd gyda nifer fawr o ddyraniadau'r CDLl heb gael eu datblygu.

6.144 Gan fod lefel y twf yn yr aneddiadau wedi'i chyfyngu i ddatblygiadau ar raddfa lai, mae'r CDLl Diwygiedig yn adlewyrchu hyn drwy ddad-ddyrannu nifer o'r dyraniadau. Mae hyn wedi peri i'r ffigur dyraniad tai leihau i 52 o breswylfeydd, gyda'r terfynau datblygu yn cael eu hymestyn i ganiatáu tai priodol ar raddfa fach.

6.145 Yn bennaf, adeiladwyr tai lleol sy'n ymgymryd â'r gwaith datblygu.

### Darpariaeth Cyflogaeth


6.146 Mae'r anheddiad yn cynnwys 6 safle cyflogaeth/diwydiannol presennol nodedig, sy'n gyfanswm o fwy na 9 hectar mewn maint ar y cyfan, ac sy'n parhau i gyflawni swyddogaeth bwysig o ran darparu cyflogaeth.

## Casgliad

6.147 Mae’r anheddiad yn darparu rôl o ran cefnogi statws Rhydaman fel ardal dwf ac mae ganddo rôl drawsffiniol gref.

6.148 Fel a nodir uchod mae lefel y twf yn yr aneddiadau wedi bod yn gyfyngedig gan ei bod yn nodweddiadol mai’r rhai ar raddfa lai sy’n fwy tebygol o gael eu cyflwyno yn hytrach na’r safleoedd mwy a ddyrannwyd.

## Canolfan Wasanaeth - Pontyberem/Bancffosfelen




### Cymeriad

6.149 Cyfeirir yn yr hierarchaeth at anheddiad, ac mae hyn yn cynrychioli aneddiadau Pontyberem a Bancffosfelen sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd yn fras. Lleolir yr anheddiad yng Nghwm Gwendraeth - tua'r un pellter rhwng Rhydaman/Cross Hands, Caerfyrddin a Llanelli. Caiff ei nodweddu gan hen weithgareddau diwydiannol yn ymwneud â mwyngloddio, ac mae'n cynrychioli canolfan sefydledig â phoblogaeth gref, sy'n cael ei chefnogi gan yr holl wasanaethau a chyfleusterau a ddisgwylir gan anheddiad o'r fath.

6.150 Mae'r anheddiad yn bentref ôl-ddiwydiannol nodweddiadol yng Nghwm Gwendraeth o ran ystyriaethau cymdeithasol, economaidd a thopograffig. Mae gan yr anheddiad rôl bwysig fel ardal Gymraeg allweddol yn nghadarnleoedd ieithyddol Cwm Gwendraeth. Mae'n cynrychioli'r anheddiad gwasanaethau allweddol ar gyfer nifer o bentrefi a chymunedau gwledig cyfagos.

### Darpariaeth Adwerthu

6.151 Er bod yr anheddiad yn cael ei wasanaethu'n dda gan siop fwyd leol a darpariaeth adwerthu fach mae hefyd yn gallu dibynnu ar yr aneddiadau cyfagos hynny ar gyfer darpariaethau penodol.

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.152 Er bod dosbarthiad twf yn y CDLl mabwysiedig cyfredol yn adlewyrchiad o'i rôl a swyddogaeth fel canolfan gwasanaethau lleol, mae'r gweithgarwch cyflawni tai yn yr anheddiad wedi bod yn gyfyngedig.

6.153 Gan fod lefel y twf yn yr anheddiad wedi'i chyfyngu i ddatblygiad ar raddfa lai, mae'r CDLl Diwygiedig yn adlewyrchu hyn drwy ddad-ddyrannu nifer o ddyraniadau. Mae hyn wedi peri i'r ffigur dyraniad tai leihau o 140 yn y CDLl mabwysiedig i 34 o breswylfeydd, ac mae'r terfynau datblygu yn cael eu hymestyn i ganiatáu tai priodol ar raddfa fach.

### Darpariaeth o ran Twf Cyflogaeth

6.154 Mae gan yr anheddiad gyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fach; fodd bynnag, nid oes unrhyw ddyraniadau cyflogaeth arfaethedig yn y pentref. Mae'r anheddiad yn dibynnu ar yr ardaloedd twf ar gyfer y mwyafrif o'i ofynion cyflogaeth.

## Casgliad

6.155 Mae gan Bontyberem rôl hollbwysig ar gyfer aneddiadau pellennig, bach, ac er bod ganddo’r holl wasanaethau a chyfleusterau sy’n ofynnol ar gyfer pentref bach ar y raddfa hon ac â’r sail boblogaeth hon, mae lefel y twf yn yr aneddiadau wedi bod yn gyfyngedig i gyfleoedd ar raddfa fach gan mwyaf, gyda’r safleoedd mwy a ddyrannwyd yn peidio â chael eu cyflwyno i’r datblygu.  .

# Clwstwr 4 – Teifi

6.156 O ystyried cymeriad yr ardal sy'n wledig yn bennaf a'i sail boblogaeth lai, y categori a bennwyd ar gyfer y clwstwr hwn yw Haen 2 – Canolfan Wasanaethau ac is.

6.157 Mae tref Castellnewydd Emlyn yn cyflawni rôl fel canolfan gwasanaethau allweddol ar gyfer yr ardal (yn enwedig o ran addysg ac adwerthu lleol) yn hytrach na'i bod yn ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Nodir perthynas glos yr ardal â'r cymunedau hynny yng Ngheredigion, ynghyd â rôl aneddiadau fel Llandysul, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn nghymunedau'r ardal hon.

6.158 Mae nifer o'r aneddiadau yn y clwstwr hwn yn dibynnu ar Gaerfyrddin fel y brif ganolfan ar gyfer adwerthu, gweinyddu, iechyd a chyfleoedd gwaith y tu allan i amaethyddiaeth.


6.159 Mae'r clwstwr wedi'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth arbennig afonol. Ar hyn o bryd mae'r Afon Teifi, yn methu targedau Cyfoeth Naturiol Cymru Bydd gan ddatblygiadau yn agos at yr afonydd hyn gapasiti cyfyngedig o bosib i gysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus a rhaid dod o hyd i atebion eraill a fydd yn bodloni'r targedau newydd, naill ai drwy fod yn niwtral o ran ffosffad neu wella lefelau ffosffad

6.160 O ran y data a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, mae'r clwstwr hwn o fewn Ardal Gweithredu Tai Fforddiadwy Sir Gaerfyrddin a Threfi Gwledig. Er y mwyaf yn ddaearyddol, yma mae'r farchnad a'r angen am dai fforddiadwy ar eu hisaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r ardaloedd sydd â'r boblogaeth leiaf yn Sir Gaerfyrddin.

6.161 Mae'r astudiaeth o Anghenion Tai Gwledig yn darparu gwybodaeth am yr angen am dai fforddiadwy yn yr ardaloedd gwledig, sy'n cefnogi'r gofyniad am gartrefi cychwynnol 2 a 3 ystafell wely. Nodir bod allfudo yn y carfannau iau yn fwy cyffredin na mewnlifo i'r ardal.

| Clwstwr | Haen | Ffigwr HOM1 | Ffigwr Dyrannu Tai | Ymrwymiad (Unedau Adeiledig a safleoedd gyda chaniatad cynllunio) |
|---|---|---|---|---|
| **Clwstwr 4** | Haen 2 | 114 | 91 | 23 |
| | Haen 3 | 104 | 81 | 23 |
| | **Cyfanswm** | **218** | **172** | **46** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Prif Ganolfan** | | | |
| **Canolfan Wasanaeth** | Llanybydder<br>Castellnewydd Emlyn<br>Pencader | | |
| **Pentrefi Cynaliadwy** | Capel Iwan<br>Cenarth<br>Cwm-ann<br>Dre-fach / Felindre | Llanfihangel-ar-arth<br>Llangeler<br>Llanllwni<br>New Inn | Pentre-cwrt<br>Pont-tyweli<br>Saron/Rhos<br>Tre-lech<br>Waungil-wen |
| **Pentrefi Gwledig** | Banc-y-ffordd<br>Bryn Iwan<br>Cwmhiraeth<br>Cwm-pen-graig | Dolgran<br>Drefelin<br>Gwyddgrug | Pen-boyr<br>Pencarreg<br>Pentrecagal |




## Canolfan Wasanaeth - Castellnewydd Emlyn

### Cymeriad

6.162 Mae Castellnewydd Emlyn yn dref farchnad hanesyddol bwysig sydd o boptu ffin y Sir â Cheredigion yng nghornel ogledd-orllewinol y Sir. Afon Teifi yw ffin y Sir, gyda chanol y dref ar ochr Sir Gaerfyrddin. Ar ochr Ceredigion i'r afon mae anheddiad Adpar, sydd â chysylltiadau agos iawn â'r dref ac sydd, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi derbyn rhan o'r twf o ran tai yn y dref.

6.163 Mae gan y dref nifer o gyfyngiadau – o ran topograffeg, daeareg, o ran llifogydd a'r amgylchedd hanesyddol adeiledig, y maent i gyd yn ffactorau yn lefel y twf priodol o fewn yr anheddiad.




### Darpariaeth Adwerthu

6.164 Mae canol y dref yn darparu rôl bwysig o ran adwerthu a gwasanaethau ar gyfer yr aneddiadau gwledig cyfagos, a gydnabyddir trwy osod y dref yn Haen 2 yn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae darpariaeth adwerthu'r dref yn gymysgedd o siopau nwyddau cymharol a chyfleustra, gyda siopau canol y dref yn rhai annibynnol a lleol yn bennaf, ac yn cael eu hategu gan rai siopau cenedlaethol. Mae cryn dipyn o ganol y dref a'r ardal o amgylch wedi'i leoli mewn ardal gadwraeth gyda'r castell yn dirnod blaenllaw.

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.165 Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cyfradd gyflawni gymharol araf yn yr anheddiad o ran darparu tai newydd. Dangosir hyn gan y ffaith nad yw 73 o'r 89 o anheddau wedi cael eu cyflawni o'r safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl mabwysiedig presennol.

6.166 Ar gyfer y CDLl diwygiedig, mae'r ffigur dyraniad tai wedi'i leihau i 51 o breswylfeydd.

### Darpariaeth Cyflogaeth

6.167 Mae gan yr anheddiad ddarpariaeth cyflogaeth sefydledig gydag ystadau diwydiannol a Hufenfa. Mae cynlluniau datblygu blaenorol wedi cydnabod bod y dref yn cynnig cyfleoedd datblygu sy'n diwallu anghenion busnes yn yr ardal.


## Casgliad

6.168 Wrth wasanaethu'r aneddiadau gwledig yn yr ardal ehangach mae Castellnewydd Emlyn yn dref farchnad wledig bwysig sydd â chanol tref sefydledig.

6.169 Mae lefel y twf preswyl yn yr anheddiad wedi bod yn gyfyngedig i gyfleoedd ar raddfa fach, gyda'r safleoedd mwy a ddyrannwyd yn peidio â chael eu cyflwyno am amrywiaeth o resymau.

# Canolfan Wasanaeth - Llanybydder

## Cymeriad




6.170 A hithau wedi'i lleoli yn Nyffryn Teifi, mae Llanybydder yn dref farchnad wledig mewn lleoliad ar y ffin â Cheredigion. Caiff y dref ei chydnabod fel anheddiad allweddol yng Nghynllun Gofodol Cymru (Ardal Canol Cymru).

6.171 Mae gan Lanybydder rôl allweddol ar gyfer aneddiadau cyfagos Pencarreg a Llanllwni (sydd wedi'u lleoli yng Nghymuned Gynaliadwy 22), a Highmead ac Alltyblaca yng Ngheredigion. Mae CDLl Ceredigion yn enwi Llanybydder fel Canolfan Wasanaethau Wledig. Mae'r CDLl Diwygiedig yn ystyried goblygiadau trawsffiniol ac yn nodi ei pherthynas â Llanbedr Pont Steffan, gan fod llawer o wasanaethau Llanbedr Pont Steffan yn cefnogi trigolion Llanybydder.

## Darpariaeth Adwerthu

6.172 Mae gan y dref ystod o siopau a gwasanaethau adwerthu lleol, gan gynnwys cyfreithwyr, cydweithfa ffermwyr a garej gwerthu ceir, y mae eu nifer yn uwch ar y cyfan na'r rhai mewn canolfannau tebyg. Mae'r farchnad amaethyddol yn gyfleuster pwysig yn y dref lle cynhelir ocsiynau'n aml. Mae gan Lanybydder hefyd ysgol gynradd, gofal iechyd, a chanolfan gymunedol.

## Darpariaeth o ran Twf Tai

6.173 O ran dosbarthu, mae ei rôl a'i safle o fewn yr hierarchaeth (er yr ategir hynny gan y gwasanaethau sydd ar gael a'i rôl o ran ei chymunedau cyfagos) yn cael eu cydbwyso â graddfa neu faint yr anheddiad sy'n adlewyrchu ei gymeriad a'i leoliad gwledig. Mae lefel twf Llanybydder wedi bod yn gyfyngedig i gyfleoedd ar raddfa fach gyda thrwch y safleoedd yn peidio â chael eu cyflwyno.

6.174 O fewn y CDLl, cyfanswm y ddarpariaeth tai yn Llanybydder oedd 98 o breswylfeydd. Mae hyn wedi'i leihau yn y CDLl Diwygiedig, gyda 19 o breswylfeydd wedi eu dyrannu, sy'n cynnwys dyraniad preswyl newydd.

## Darpariaeth Cyflogaeth

6.175 Yn ogystal â chyflogaeth amaethyddol a'r ystadau diwydiannol yn yr ardal, mae Dunbia yn gyflogwr allweddol. Mae'r lladd-dy wedi'i leoli ar gyrion y dref ac yn darparu nifer fawr o swyddi yn y dref a'r ardal o'i hamgylch.

## Casgliad


6.176 Mae gan Lanybydder rôl leol bwysig ar gyfer yr ardal wledig gyfagos, yn enwedig ar gyfer y gymuned amaethyddol.

6.177 Mae lefel y twf preswyl yn yr anheddiad wedi bod yn gyfyngedig i gyfleoedd ar raddfa fach, gyda'r safleoedd mwy a ddyrannwyd yn peidio â chael eu cyflwyno am amrywiaeth o resymau. Mae'r CDLl Diwygiedig yn ceisio cydnabod y diffyg datblygiad, ac yn darparu safleoedd y gellir eu cyflawni.

## Canolfannau Gwasanaeth - Pencader

6.178 Yn y gorffennol dyrannwyd Pencader yn Gymuned Gynaliadwy yn y CDLl mabwysiedig. Fodd bynnag mae wedi'i nodi'n Ganolfan Wasanaethau yn y CDLl Diwygiedig. Mae'n ffurfio un o'r pentrefi mwyaf yn y rhan hon o Sir Gaerfyrddin ac yn cefnogi a chysylltu â llawer o'r pentrefi gwledig cyfagos.

6.179Mae gan y pentref rai siopau lleol ac ysgol gynradd.  Fe'i lleolir ar y B4459, yn agos at ei chyffordd â'r A485, ac felly fe'i lleolir ar briffordd strategol i gysylltu rhannau gogleddol Sir Gaerfyrddin â Chaerfyrddin ei hun.




### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.180 O safbwynt dosbarthiad, caiff ei rôl a'i safle yn yr hierarchaeth bresennol eu cydbwyso yn erbyn graddfa neu faint yr anheddiad, sy'n adlewyrchu ei gymeriad a'i leoliad gwledig. Bu twf tai Pencader yn gymharol araf yn y blynyddoedd diwethaf. Mae gan y pentref dri safle dyranedig, ac mae un ohonynt wedi ei gwblhau.

6.181 Ar gyfer y CDLl diwygiedig, mae'r twf arfaethedig yn debyg i'r hyn a ddyrannwyd yn flaenorol, ond mae ystyriaeth wedi'i rhoi i ddyrannu safleoedd newydd, gan ragdybio hyrwyddo'r gwaith o ddarparu tai newydd.

### Darpariaeth Cyflogaeth

6.182 Lleolir nifer o safleoedd cyflogaeth presennol yn y pentref lle mae amrywiaeth o fusnesau lleol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddyraniadau cyflogaeth o fewn y pentref. Mae’r anheddiad yn dibynnu ar yr anheddiad mwy o fewn y cyffiniau ar gyfer y mwyafrif o’i ofynion cyflogaeth.

### Casgliad

6.183Mae Pencader yn ganolfan i'r ardaloedd cyfagos, ac adlewyrchir hyn yn y twf arfaethedig ar gyfer yr anheddiad.

# Clwstwr 5 - Cwm Tywi Uchaf

6.184 O ystyried cymeriad yr ardal sy’n wledig yn bennaf a’i dwysedd poblogaeth is, y categori a ben-nwyd ar gyfer y clwstwr hwn yw Haen 2 – Canolfan Wasanaethau ac is.

6.185 Llandeilo, Llanymddyfri a Llangadog sy'n cyflawni'r rolau allweddol fel canolfannau gwasanaeth, ac maent yn cefnogi darpariaeth gymdeithasol, cyflogaeth, addysg a manwerthu lleol ar gyfer yr an-eddiadau llai. Mae’r ardal wedi’i chysylltu’n dda â’r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach trwy’r A40, yr A476 a Rheilffordd Calon Cymru.

6.187 Yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, mae llawer o'r aneddiadau hyn yn edrych tua Chaerfyrddin neu Rydaman / Cross Hands fel y prif ganolfannau ar gyfer darpariaeth fwy o ran manwerthu a chyflog-aeth.


6.188 Mae’r clwstwr wedi'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth arbennig afonol. Er bod afon Tywi yn rhagori ar ei thargedau, prin yw'r hyblygrwydd Bydd gan ddatblygiadau yn agos at yr afonydd hyn gapasiti cyfyngedig o bosib i gysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus a rhaid dod o hyd i atebion eraill a fydd yn bodloni'r targedau newydd, naill ai drwy fod yn niwtral o ran ffosffad neu wella lefelau ffosffad

6.189 O ran y data a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, mae'r rhan fwyaf o'r clwstwr hwn yn Ardal Gweithredu Tai Fforddiadwy Sir Gaerfyrddin a Threfi Gwledig. Er y mwyaf yn ddaearyddol, yma mae'r farchnad a'r angen am dai fforddiadwy ar eu hisaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r ardaloedd sydd â'r boblogaeth leiaf yn Sir Gaerfyrddin.

6.190 Mae'r astudiaeth o Anghenion Tai Gwledig yn darparu gwybodaeth am yr angen am dai fforddi-adwy yn yr ardaloedd gwledig, sy'n cefnogi'r gofyniad am gartrefi cychwynnol 2 a 3 ystafell wely. Nodir bod allfudo yn y carfannau iau yn fwy cyffredin na mewnlifo i'r ardal.

| Clwstwr | Haen | Ffigwr HOM1 | Ffigwr Dyrannu Tai | Ymrwymiad (Unedau Adeiledig a safleoedd gyda chaniatad cynllunio) |
|---|---|---|---|---|
| **Clwstwr 5** | Haen 2 | 141 | 59 | 82 |
| | Haen 3 | 21 | 8 | 13 |
| | **Cyfanswm** | **162** | **67** | **95** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Prif Ganolfan** | | | |
| **Canolfan Wasanaeth** | Llandeilo<br>Llanymddyfri | Llangadog | |
| **Pentrefi Cynaliadwy** | Abergorlech<br>Caio<br>Cwm-du<br>Cwmifor | Cwrt-henri<br>Ffarmers<br>Llanfynydd<br>Llansawel | Llanwrda<br>Salem<br>Talyllychau |
| **Pentrefi Gwledig** | Ashfield Row<br>Bethlehem<br>Derwen-fawr<br>Capel Isaac<br>Cil-y-cwm<br>Crug-y-bar<br>Cwm-du<br>Cynghordy | Dryslwyn<br>Ffaldybrenin<br>Felindre (Dryslwyn)<br>Felindre (Llangadog)<br>Gelli-aur<br>Llangathen<br>Llansadwrn<br>Maenordeilo | Pen-y-banc<br>Porth-y-rhyd<br>Pumsaint<br>Rhandir-mwyn<br>Rhydcymerau<br>Siloh<br>Trap<br>Waunystrad Meurig |




# Canolfan Wasanaeth - Llanymddyfri

## Cymeriad

6.191 Mae Llanymddyfri yn dref farchnad hanesyddol ar goridor trafnidiaeth gynaliadwy, ac mae'n ganolfan wasanaethau sefydledig sy'n cyflawni rôl bwysig ar gyfer aneddiadau mwy pellennig.

6.192 Mae’r potensial i’r anheddiad dderbyn lefel briodol o dwf sy’n adlewyrchu hyn yn cael ei gydnabod ond rhaid cydbwyso hynny yn erbyn effaith cyfyngiadau o ran perygl llifogydd a welir yn yr anheddiad ac o’i amgylch, yn ogystal â’i amgylchedd hanesyddol a’i dreftadaeth archeolegol o ansawdd da.




## Darpariaeth Adwerthu

6.193 Yn hanesyddol mae'r anheddiad wedi bod yn cyflawni rôl adwerthu bwysig gan wasanaethu cymuned ehangach. A hithau wedi’i chanoli ar ganol tref hanesyddol mae’r dref farchnad hon yn ymgorffori manwerthwyr sy’n annibynnol a lleol yn bennaf gyda nifer gyfyngedig o siopau cadwyn cenedlaethol.

## Darpariaeth o ran Twf Tai

6.194 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf dim ond datblygiad tai ar raddfa fach sydd wedi digwydd o fewn y setliad. Mae'r safle yn Dan y Crug sydd heb ei ddatblygu mewn blynyddoedd blaenorol yn denu diddordeb gyda chais wedi ei gyflwyno ar gyfer 61 o anheddau.


## Darpariaeth Cyflogaeth

6.195 Er nad oes gan y dref unrhyw ddyraniadau cyflogaeth newydd yn y CDLl mabwysiedig cyfredol, mae’r dref yn cael budd o ddarpariaeth bresennol gref o ran cyflogaeth sy’n gweithredu fel elfen bwysig o’r economi leol ac ehangach. Mae dros 10 hectar o dir cyflogaeth presennol wedi’i nodi yn Llanymddyfri yn y CDLl gydag ystod o ddefnyddiau gan gynnwys peiriannau a chyflenwadau amaethyddol, cyflenwadau pren a chyflenwadau adeiladwyr, peirianneg arbenigol, gweithgynhyrchu a storio a dosbarthu.

## Casgliad

6.196 Fel y cyfeiriwyd ato yn y cyfiawnhad dros ddull gweithredu ar sail clwstwr yn y CDLl Diwygiedig, mae Llanymddyfri yn enghraifft wych o ganolfan wasanaeth sy'n darparu ar gyfer y cymunedau o'i hamgylch. Fodd bynnag mae wedi bod yn amgylchedd heriol ac fe'i nodweddir gan ddiffyg cyflawni unrhyw ddyraniadau tai yn y CDLl mabwysiedig.

## Canolfan Wasanaeth - Llandeilo (gan gynnwys Ffairfach a Rhos-maen)




### Cymeriad

6.197 Mae Llandeilo yn dref farchnad hanesyddol bwysig ar goridor trafnidiaeth gynaliadwy sy'n cyflawni rôl hirsefydlog fel canolfan wasanaethau – gan gefnogi ei thrigolion a chymunedau'r gefnwlad ehangach ac aneddiadau pellennig.

6.198 Adlewyrchir ei safbwynt hefyd o fewn y ddarpariaeth addysg gyda datblygiad diweddar Ysgol Bro Dinefwr yn darparu'r ddarpariaeth addysg uwchradd ar gyfer yr ardal hon, a'r disgyblion o hen ysgol Pantycelyn yn teithio i Landeilo ar gyfer y gwasanaeth hwn erbyn hyn.

6.199 Mae'r rhan fwyaf o Ffair-fach i'r de o Landeilo yn y parthau perygl llifogydd a amlinellir yn Nodyn Cyngor Technegol 15, ac felly ni ellir datblygu llawer o'r ardal.

### Darpariaeth Adwerthu

6.200 Mae gan Landeilo ganolfan fanwerthu sefydledig – mae'r arlwy adwerthu hon yn darparu ar gyfer gofynion lleol, tra'i bod hefyd yn datblygu enw da am ddarpariaeth o ansawdd sy'n gwasanaethu marchnadoedd arbenigol o ansawdd da. Yn hyn o beth mae'r anheddiad wedi llwyddo i sefydlu ei hun fel cyrchfan adwerthu.

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.201 O ran cyflawni tai, effeithiwyd ar hyn i ryw raddau yn sgîl dyrannu Ardal y Gogledd yn y CDLl mabwysiedig presennol gyda rhyw 215 o unedau preswyl. Gan fod yn gyfrifol am drwch y dyraniad ar y cyfan o 257 o unedau preswyl, mae hyn yn adlewyrchu rôl a statws yr anheddiad yn hierarchaidd ond mae methu â chyflawni'r dyraniad wedi cwtogi ar gyfleoedd ar gyfer twf yn yr anheddiad hwn.

6.202 Mae'r CDLl Diwygiedig yn ceisio adlewyrchu'r mater o beidio â chyflawni drwy ddad-ddyrannu nifer o'r dyraniadau. Mae hyn wedi peri i'r ffigur dyraniad tai leihau o 263 yn y CDLl mabwysiedig i 27 o breswylfeydd, ac mae'r terfynau datblygu yn cael eu hymestyn i ganiatáu tai priodol ar raddfa fach.

## Darpariaeth Cyflogaeth

6.203 Mae’r Ganolfan Wasanaethau hon yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflogaeth hefyd. Cyflawnir hyn trwy ddarpariaethau presennol, ond hefyd trwy’r ddarpariaeth arfaethedig ar safle Beechwood. Mae hyn yn ategu cyfleoedd i ddiwallu anghenion busnes yn yr ardal ac ymhlith cymunedau cyfagos.


## Casgliad

6.204 Fel y cyfeiriwyd ato yn y cyfiawnhad dros ddull gweithredu ar sail clwstwr yn y CDLl Diwygiedig, mae Llanymddyfri yn enghraifft wych o ganolfan wasanaeth sy'n darparu ar gyfer y cymunedau o'i hamgylch. Fodd bynnag mae wedi bod yn amgylchedd heriol ac fe'i nodweddir gan ddiffyg cyflawni unrhyw ddyraniadau tai yn y CDLl mabwysiedig.

## Canolfan Wasanaeth - Llangadog

### Cymeriad

6.205 A hithau wedi'i lleoli yn Nyffryn Tywi, caiff Llangadog ei nodi yng Nghynllun Gofodol Cymru fel anheddiad allweddol yng Nghlwstwr Dyffryn Tywi. Mae Llangadog yn hen dref farchnad wledig gryno. Mae'n agos at yr A40 rhwng Llandeilo a Llanymddyfri, gyda mynediad trwy ei gorsaf reilffordd at Reilffordd Calon Cymru.




### Darpariaeth Adwerthu

6.206 Mae'r anheddiad yn cynnig gwasanaeth adwerthu lleol gan. Mae hefyd yn cynnwys ystod o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol, gan gynnwys ysgol gynradd, gofal iechyd a neuadd gymunedol.

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.207 O ran dosbarthu, mae ei rôl a'i safle o fewn y fframwaith aneddiadau ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir (er yr ategir hynny gan y gwasanaethau sydd ar gael a'i rôl o ran ei chymunedau cyfagos) yn cael eu cydbwyso â graddfa neu faint yr anheddiad sy'n adlewyrchu ei gymeriad a'i leoliad gwledig. Mae'r CDLl mabwysiedig cyfredol yn cydnabod hyn trwy ddyrannu 37 o unedau dros ddau safle tai sydd wedi'u dyrannu gyda un safle wedi ei gwblhau a 21 annedd wedi eu ddatblygu ar hanner o safle dyraniad.

6.208 Mae'r CDLl diwygiedig yn ceisio rhesymoli'r ffigur dyraniad tai gyda rhan o'r dyraniad tai presennol yn cael ei bwrw ymlaen i'r dyfodol, a'r gweddill yn cael ei ddefnyddio fel rhan o faes parcio'r ysgol.

### Darpariaeth Cyflogaeth

6.209 Nid oes unrhyw dir penodol yn Llangadog wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflogaeth yn y CDLl mabwysiedig cyfredol; fodd bynnag, mae gan y dref ddarpariaeth bresennol gref o ran cyflogaeth sy'n gweithredu fel elfen bwysig o'r economi leol ac ehangach. Mae mwy nag 8 hectar o dir cyflogaeth presennol wedi'i nodi ar gyfer Llangadog yn y CDLl, gan gynnwys safle'r hen Hufenfa sydd bellach yn cael ei ddefnyddio i weithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes.

### Casgliad

6.210 Fel a nodir uchod mae lefel y twf yn yr anheddiad wedi bod yn gyfyngedig; o ganlyniad mae natur a graddfa twf datblygiadau a ddyrennir i'r anheddiad wedi cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddosbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

# Clwstwr 6 – Gorllewin Sir Gaerfyrddin

| Prif Ganolfan | | | |
|---|---|---|---|
| Canolfan Wasanaeth | Sanclêr / Pwll- trap | Hendy-gwyn ar Daf<br>Talacharn | |
| Pentrefi Cynaliadwy | Bancyfelin<br>Efailwen<br>Glandy Cross<br>Llanboidy | Llanddowror<br>Llangynin<br>Llangynog | Llanmilo<br>Meidrim<br>Pentywyn |
| Pentrefi Gwledig | Blaen-waun<br>Broadway<br>Cross Inn<br>Cwm-bach | Cwmfelin-boeth<br>Cwmfelin -Mynach<br>Llanfallteg | Llanglydwen<br>Llansadyrnin<br>Rhos-goch |

6.211 O ystyried bod yr ardal yn un wledig yn bennaf a chanddi sylfaen boblogaeth lai, mae dosbarthiad y clwstwr hwn wedi'i osod ar Haen 2 - Canolfan Wasanaeth ac is.

6.212 Gyda'i chysylltiadau â Gorllewin Cymru, yn draddodiadol mae'r clwstwr hwn wedi canolbwyntio ar ddatblygu aneddiadau Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf sy'n cyflawni'r rol-au canolfannau gwasanaeth allweddol yn y clwstwr hwn ac sy'n cefnogi'r arlwy gym-deithasol, cyflogaeth, addysg ac adwerthu lleol ar gyfer yr aneddiadau llai. Mae'r ardal wedi'i chysylltu'n dda â'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach trwy'r A40, yr A477 a rheil-ffordd Llundain – Abergwaun. Ceir cysylltiadau da rhwng gogledd orllewin pellaf y clwstwr ar hyd yr A478 i Geredigion a Sir Benfro.

6.213 Mae ei berthynas â Sir Benfro a’i arfordir deniadol yn golygu bod darpariaeth gref i dwristiaid wedi datblygu yn yr anheddiad, gyda Thalacharn a Phentywyn yn gwneud cyfraniad pwysig at yr ymdeimlad cyffredinol o le ac at yr economi ymwelwyr. O ran twr-istiaeth, mae’r hyn a gynigir yn yr ardal gymeriad hon (sy'n seiliedig ar yr arfordir) at ei gilydd yn wahanol i'r dwristiaeth seiliedig ar weithgareddau a geir yn ardal wledig gog-ledd y Sir a’r atyniadau hynny ar raddfa fwy yng Nghlwstwr 2.


6.214 Yng nghyd-destun Caerfyrddin, mae llawer o’r aneddiadau’n dibynnu ar Gaer-fyrddin fel y brif ganolfan ar gyfer arlwyon adwerthu a chyflogaeth mwy.

6.215 Bydd angen ystyried yn y dyfodol i botensial ysbyty newydd o fewn y clwstwr gydag un o dri safle i'w ddewis fel yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio.




| Clwstwr | Haen | Ffigwr HOM1 | Ffigwr Dyrannu Tai | Ymrwymiad (Unedau Adeiledig a safleoedd gyda chaniatad cynllunio) |
|---|---|---|---|---|
| **Clwstwr 6** | Haen 2 | 521 | 241 | 280 |
| | Haen 3 | 126 | 66 | 60 |
| | **Cyfanswm** | **647** | **307** | 340 |

# Canolfan Wasanaeth - Sanclêr / Pwll-trap




## Cymeriad

6.216 Mae Sanclêr wedi’i lleoli’n gynaliadwy yn rhan orllewinol y sir ar y prif rwydwaith trafnidiaeth rhwng Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a’r tu hwnt. Mae’n cyflawni rôl bwysig o ran gwasanaethau a darpariaeth, ac yn cefnogi nifer o aneddiadau pellennig. Mae ganddi ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethau sy’n gymesur ag anheddiad yn y safle hwn. Mae gan y dref un o'r tri safle sy'n destun dewis safle ar gyfer ysbyty newydd.

## Darpariaeth Adwerthu

6.217 Mae’r arlwy adwerthu yn Sanclêr wedi’i chanoli’n bennaf o fewn ffiniau canol y dref ac yn canolbwyntio fwy neu lai ar roi darpariaeth leol. Maent yn cynnwys cymysgedd o siopau cyfleustra ac adwerthwyr cymharol, a nifer gyfyngedig o siopau cenedlaethol y stryd fawr sydd yno. Mae Sanclêr yn dibynnu ar Gaerfyrddin fel y brif arlwy adwerthu ar gyfer y rhan hon o Sir Gaerfyrddin.

## Darpariaeth o ran Twf Tai

6.218 Mae dosbarthiad twf yn gymesur i’r rôl hon, y cyd-destun lleoliadol hwn a’i dueddiad i gyflawni. Mae nifer o'r safleoedd  wedi cael caniatâd cynllunio neu'n cael eu hadeiladu. Ar hyn o bryd mae Cymdeithas Tai ar safle ar yr hen Ffatri Menyn (45 anhedd).

## Darpariaeth Cyflogaeth


6.219  Mae gan yr anheddiad ddarpariaeth sefydledig o ran cyflogaeth (yn ddarpariaeth bresennol ac arfaethedig), sy’n elwa o’i lleoliad ar yr A40. Mae Caerfyrddin wedi’i lleoli 10 milltir i ffwrdd, ac mae cryn dipyn o’r cyfleoedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus / y sector gweinyddol / gwasanaethau ar gyfer llafurlu Sanclêr wedi’u lleoli yno.

## Casgliad

6.220 O ystyried y dadansoddiad uchod, mae Sanclêr yn dref hunangynhaliol gyda’r holl wasanaethau a chyfleusterau sy’n briodol i’w graddfa. O ystyried ei lleoliad strategol, mae'n dref bwysig ar gyfer datblygu tai a chyflogaeth newydd, ac mae cymysgedd ym maint y datblygiad yn ystyriaeth bwysig.

6.21Mae gan Sanclêr hefyd rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi pentrefi eraill sydd gerllaw.

## Canolfan Wasanaeth - Hendy-gwyn ar Daf




### Cymeriad

6.222 Mae Hendy-gwyn ar Daf (fel a adlewyrchir yng Nghynllun Gofodol Cymru) yn cyflawni rôl canolfan wasanaethau mewn lleoliad trawsffiniol pwysig. Mae Hendy-gwyn ar Daf, sydd wedi'i lleoli'n gynaliadwy ar goridor trafnidiaeth allweddol rhwng Sir Benfro, Caerfyrddin a'r tu hwnt, yn cyflawni rôl bwysig o ran gwas-anaethau ar gyfer nifer o aneddiadau pellennig bach. Mae gan y dref orsaf reilffordd sydd wedi'i lleoli ar y llinell reilffordd rhwng Abergwaun a Paddington.

6.223 Lleolir prif ganolfan Hendy-gwyn ar Daf o fewn y parth perygl llifogydd, ac felly bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i unrhyw ddatblygiad arfaethedig.

6.224 Mae gan y dref ddau o'r tri safle sy'n destun dewis safle ar gyfer ysbyty newydd

### Darpariaeth Adwerthu

6.225 Mae'r anheddiad yn darparu arlwy adwerthu bwysig sy'n gwasanaethu'r gymuned leol ac ehangach trwy gymysgedd o ddarpariaeth gyda chanol y dref yn bennaf yn cynnwys adwerthwyr annibynnol a lleol gyda chynrychiolaeth o blith siopau cenedlaethol yn gyfyngedig i adwerthwyr cyfleustra.

6.226 Mae Hendy-gwyn ar Daf yn dibynnu ar Gaerfyrddin fel y brif arlwy adwerthu ar gyfer y rhan hon o Sir Gaerfyrddin, tra bo Arberth a'i marchnadoedd lleol arbenigol yn gwasanaethu'r dref hefyd.

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.227 Ystyrir bod dosbarthiad twf o fewn y CDLl mabwysiedig cyfredol yn gymesur â'i rôl a'i swyddogaeth, gyda 118 o'r 205 o unedau preswyl heb gael eu cyflawni.  Mae caniatâd cynllunio gan rai safleoedd yn Hendy-gwyn ar Daf, gan gynnwys 28 o breswylfeydd ar ran o safle Hufenfa Hendy-gwyn

6.228 Mae nifer yr anheddau yn ardal Hendy-gwyn ar Daf wedi cael ei leihau o 205 annedd yn y CDLl presennol i 128 yn y CDLl Diwygiedig

### Darpariaeth o ran Twf Cyflogaeth

6.239 Mae gan yr anheddiad ddarpariaeth sefydledig o ran cyflogaeth (yn ddarpariaeth bresennol ac arfaethedig), sy'n elwa o'i lleoliad ar yr A40.

6.230 Mae nifer o fusnesau yn meddiannu'r unedau yn Hufenfa Hendy-gwyn ar Daf, tra bod busnes wedi'i sefydlu yn West Street a Pharc Diwydiannol Whitand


## Casgliad

6.231 O ystyried y dadansoddiad uchod, mae Hendy-gwyn ar Daf yn dref hunangynhaliol gyda'r holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i'w maint. O ystyried ei lleoliad strategol trawsffiniol, mae'n dref bwysig ar gyfer datblygu tai a chyflogaeth newydd. Fodd bynnag, byddir yn cyfeirio at y cyfyngiadau sy'n deillio o leoliad rhannol yr anheddiad mewn ardaloedd lle canfuwyd perygl llifogydd.

## Canolfan Wasanaeth - Talacharn

### Cymeriad

6.232 Caiff tref Talacharn ei chydnabod fel canolfan leol yng Nghynllun Gofodol Cymru sy'n cyfrannu fel canolfan bwysig ar gyfer twristiaeth. Mae’r anheddiad yn darparu ar gyfer adwerthu lleol ac anghenion eraill ar y cyd â chyfleusterau cymunedol gan gynnwys ysgol gynradd, darpariaeth gofal iechyd, tafarndai, a gwestai a thai llety.




### Darpariaeth Adwerthu

6.233 Mae gan yr anheddiad ddarpariaeth adwerthu leol sy’n cynnwys siop fwyd leol. Mae cryn dipyn o’r arlwy adwerthu wedi’i chanoli ar dwristiaeth a diwylliant.

### Darpariaeth o ran Twf Tai

6.234 Gwelwyd cyfradd araf o ran twf tai yn yr anheddiad yn ystod cyfnod y CDLl presennol, fodd bynnag mae datblygiadau wedi bod yn ddiweddar. O'r ddau ddyraniad, mae'r safle yn Pludds Meadow wedi gweld datblygiad ffordd yr ystad, ac mae'r safle gerllaw Ysgol Talacharn wedi cael caniatâd cynllunio yn ddiweddar a chael ei brynu gan ddatblygwr lleol

### Darpariaeth Cyflogaeth

6.235 Er nad oes darpariaeth cyflogaeth wedi’i nodi o fewn yr anheddiad, nid yw hyn yn anghyson â’i gymeriad ac â’i gyfraniad economaidd sydd wedi’i ganoli ar dwristiaeth a diwylliant.

### Casgliad

6.236 Mae lleoliad arfordirol Talacharn, ei chadwraeth natur, ei hamgylchedd hanesyddol a’i hetifeddiaeth ddiwylliannol yn ogystal â’i phriod gyfyngiadau o ran perygl llifogydd i gyd yn faterion sy’n dylanwadu ar ei photensial i dderbyn twf.

6.237 O ran y ddarpariaeth dai yn y dref, ystyrir graddfa'r datblygiad a chynigir cymysgedd o ddatblygiadau tai. Mae natur a graddfa twf Talacharn yn y dyfodol wedi cael ei adolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn cael ystyriaeth hefyd wrth ddosbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

## Haen 3 – Pentrefi Cynaliadwy

6.238 Mae Pentrefi Cynaliadwy yn ôl eu natur yn amrywio o ran eu math a'u swyddogaeth, ac maent yn aml yn adlewyrchu amrywiaeth y Sir. Mae'r CDLl Adneuo yn cydnabod rôl aneddiadau llai o'r fath a'u cyfraniad at greu cymunedau cynaliadwy.

6.239 Caiff cyfraniad aneddiadau o'r fath ei adlewyrchu yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol, gyda dadansoddiad yn dangos nifer os safleoedd yn cael caniatâd cynllunio.

6.240 Mae llawer o'r aneddiadau a nodir fel Pentrefi Cynaliadwy yn y CDLl Adneuo wedi'u diffinio'n Gymunedau Cynaliadwy o fewn y CDLl mabwysiedig cyfredol. Mae'r Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol yn nhabl 13 yn dangos natur gymharol yr aneddiadau o fewn yr Haen hon, a'u perthynas â'r aneddiadau o fewn haenau uwch yr hierarchaeth.

6.241 Wrth ystyried chwe chlwstwr yr hierarchaeth aneddiadau ar gyfer Sir Gaerfyrddin, defnyddir y sail resymegol ganlynol i ategu penderfyniadau i gynnwys aneddiadau yn Haen 3 yn eu priod glystyrau.

### Clwstwr 1 - Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig

6.242 Mae'r pentrefi cynaliadwy yng Nghlwstwr 1 yn dibynnu ar Gaerfyrddin i gyflawni'r rôl fel canolfan wasanaethau allweddol, gyda chyfleoedd cyflogaeth yn y dref. Gall y pentrefi cynaliadwy hyn ddarparu cartrefi ar gyfer gweithwyr y cyflogwyr hyn, yn ogystal â gweithredu fel cymunedau hunangynhaliol yn eu rhinwedd eu hunain. Mae gan y pentrefi botensial datblygu o fewn y clwstwr hwn, ac maent yn darparu ar gyfer amrywiaeth yn y farchnad dai, sy'n ategu'r datblygiadau ar raddfa fawr a welir yng Nghaerfyrddin ac yn wahanol iddynt.

6.243 Mae llawer o'r pentrefi cynaliadwy hyn wedi'u lleoli ar lwybrau trafnidiaeth allweddol (e.e. yr A48, yr A40, yr A484, yr A485) hefyd ac yn meddu ar ymdeimlad cryf o le a hunaniaeth Gymreig. Cyfeirir hefyd at eu cyfraniad posibl o ran twristiaeth, yn fwyaf nodedig o fewn yr aneddiadau hynny sydd wedi'u lleoli ar yr arfordir (Llansteffan), yn ogystal â'r rhai i'r gogledd (e.e. twristiaeth gweithgareddau ym Mrechfa), a darparu cymysgedd amrywiol a chyfrannu at yr arlwy ar y cyfan.

6.244 O ran diwallu'r angen hwn am dai, ni fyddai datblygwyr ar raddfa fawr yn datblygu yn yr anheddiad hwn, gan ddibynnu ar adeiladwyr bach a chanolig i ddatblygu.

6.245 Mae Atodiad 1 yn Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol (Rhan 1) yn nodi'r safleoedd bach a gwblhawyd yn y clwstwr hwn, a phwysigrwydd safleoedd bach o fewn yr haen, nid yn unig o ran nifer, ond sut maent yn cyfrannu at fywiogrwydd a chynaliadwyedd eu cymunedau.

**Dosbarthiad Gofodol Haen 3, Clwstwr 1**

6.246 Dyrennir 320 o breswylfeydd yn yr haen hon o glwstwr 1, sy'n cyfateb i 4.7% o'r ffigur dyraniad tai cyffredinol yn y CDLl Adneuo.

## Clwstwr 2 - Llanelli ac Ardal De Gwendraeth

6.247 O ran Clwstwr 2, mae'r pentrefi cynaliadwy hyn yn dibynnu ar Lanelli yn ogystal â'r tu hwnt i Lain Arfordirol Bae Abertawe. Mae ardal Mynyddygarreg a Phump-hewl yn addas ar gyfer lefel briodol o ddatblygu, ac mae gan Fynyddygarreg yn enwedig farchnad dai fywiog. Mae wedi bod â rôl allweddol o ran cefnogi Cydweli ar hyd coridor yr A484. Mae Mynyddygarreg a Phump-hewl yn meddu ar ymdeimlad o le gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer bywyd pentref ond yn agos at ganolfannau cyflogaeth allweddol (gan gynnwys Llanelli).

6.248 Mae Llan-saint / Broadway yn darparu gosodiad deniadol sy'n cefnogi Glanyfferi ac ardal ehangach Aber Afon Tywi o ran potensial economi ymwelwyr y Sir.

6.249 Mae Atodiad 1 yn Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol (Rhan 1) yn nodi'r safleoedd bach a gwblhawyd yn y clwstwr. Er bod safleoedd bach yn elfen bwysig ar gyfer cyflenwi tai ym mhob un o'r haenau, mae'n rhoi syniad o bwysigrwydd dyraniadau tai yn y clwstwr hwn. Mae pob un o'r aneddiadau hyn yn ffitio'n gyfforddus yn yr haen hon o'r hierarchaeth.

**Dosbarthiad Gofodol Haen 3, Clwstwr 2**

6.250 Dyrennir 74 o breswylfeydd o fewn yr haen hon o glwstwr 2, sy'n cyfateb i 1.08% o'r ffigur dyraniad tai cyffredinol yn y CDLl Adneuo.

## Clwstwr 3 – Aman a Gwendraeth Uchaf

6.251 Mae'r pentrefi cynaliadwy yng Nghlwstwr 3 yn dibynnu ar Rydaman / Cross Hands o fewn ardaloedd hen faes glo'r cwm gorllewinol, sef Aman a'r Gwendraeth.

6.252 Mae Llannon a Llanedi hefyd mewn sefyllfa i gefnogi prif ganolfannau Llanelli a Rhydaman / Cross Hands. At ddibenion cyrraedd ffigur y gofyniad tai, a dosbarthiad gofodol niferoedd tai, cysylltir Llannon â Rhydaman, tra bo Llanedi yn gysylltiedig â'r Hendy a Fforest, ac felly bydd clwstwr Llanelli ac unrhyw dwf yn y dyfodol yn cymryd hyn i ystyriaeth.

6.253 Mae Cwmgwili, Maesybont a Foelgastell yn arddangos ymdeimlad cryf o le o ran bywyd pentref a ffabrig cymdeithasol, tra bo'r farchnad dai yn yr ardaloedd hyn wedi bod yn weddol ffyniannus. Er bod llawer o'r ardal hon yn ôl-ddiwydiannol yn hytrach na'n wledig, mae hefyd yn gadarnle allweddol i'r Gymraeg yn y sir.

6.254 O ran aneddiadau mwy o faint yn ardal Dyffryn Aman, maent yn cynnig yr holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n ofynnol o bentref cynaliadwy, ond maent hefyd yn dibynnu ar aneddiadau mwy ar draws y ffin.

6.255 Mae Atodiad 1 yn Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol (Rhan 1) yn nodi'r safleoedd bach a gwblhawyd yn y clwstwr hwn, a phwysigrwydd safleoedd bach o fewn yr haen, nid yn unig o ran nifer, ond sut maent yn cyfrannu at fywiogrwydd a chynaliadwyedd eu cymunedau, yn enwedig mewn aneddiadau sydd wedi gweld nifer cyfyngedig o ddatblygiadau mawr.

**Dosbarthiad Gofodol Haen 3, Clwstwr 3.**

6.257 Dyrennir 86 o breswylfeydd yn yr haen hon o glwstwr 3, sy'n cyfateb i 1.26% o'r ffigur dyraniad tai cyffredinol yn y CDLl Adneuo.

## Clwstwr 4 - Teifi

6.258 Mae'r pentrefi cynaliadwy yng Nghlwstwr 4 wedi'u lleoli yng ngogledd orllewin y Sir yn bennaf ar Goridor Dyffryn Teifi. Mae ganddynt rôl gefnogol mewn perthynas â Chastell-newydd Emlyn, Llanybydder a Phencader. Mae'r pentrefi cynaliadwy hyn yn bennaf yn wledig o ran natur, ac mae gan rai rôl drawsffiniol bwysig – yn anad dim gyda Cheredigion.

6.259 At ei gilydd, ac yn debyg i'r Canolfannau Gwasanaethau yn y clwstwr hwn, mae'r pentrefi cynaliadwy'n dibynnu ar Gaerfyrddin fel y brif ganolfan bennaf ar gyfer adwerthu, a chyfleoedd gwaith y tu allan i amaethyddiaeth. Bydd graddfa dosbarthiad y twf ar y cyfan o fewn pob anheddiad, a maint y safleoedd ym mhob anheddiad yn ystyriaeth bwysig, yn enwedig o ran cefnogi'r Gymraeg, a mynd i'r afael â her taro cydbwysedd rhwng cyfleusterau a gwasanaethau gwledig sy'n lleihau ar y naill law a'r pwyslais ar gadw cymunedau bywiog ar y llaw arall.

6.260 Mae Atodiad 1 yn Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol (Rhan 1) yn nodi'r safleoedd bach a gwblhawyd yn y clwstwr hwn, a phwysigrwydd safleoedd bach o fewn yr haen, nid yn unig o ran nifer, ond sut maent yn cyfrannu at fywiogrwydd a chynaliadwyedd eu cymunedau, yn enwedig mewn aneddiadau sydd wedi gweld nifer cyfyngedig o ddatblygiadau mawr. Mae pob un o'r aneddiadau hyn yn ffitio'n gyfforddus yn yr haen hon o'r hierarchaeth

**Dosbarthiad Gofodol Haen 3, Clwstwr 4**

6.261 Dyrennir 104 o breswylfeydd yn yr haen hon o glwstwr 4, sy'n cyfateb i 1.52% o'r ffigur dyraniad tai cyffredinol yn y CDLl Adneuo.

## Clwstwr 5 - Cwm Tywi Uchaf

